Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL: 36/2025
DYDDIAD CYHOEDDI: 06/05/2025

# Ymchwil ddatblygol i dwristiaeth beicio

## Croeso Cymru






This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83715-663-4

Ymchwil Ddatblygol i Dwristiaeth Beicio

Anthony Lydall, Strategic Research and Insight

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/datblygu-twristiaeth-beicio

Barn yr ymchwilydd ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:

Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau

Croeso Cymru

Economi, Ynni a Thrafnidiaeth

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: twristiaethymchwil@llyw.cymru

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

ISBN: 978-1-83715-663-4

6 Mai 2025

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cynnwys i gyd ar gael o dan Fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth ac eithrio lle nodir yn wahanol.

Trwydded Agored y Llywodraeth

## Cynnwys

Rhestr o dablau a siartiau .......... 2
1. Crynodeb .......... 4
2. Cefndir a dull .......... 6
3. Beicio ffyrdd a di-draffig: y sefyllfa ar hyn o bryd .......... 9
4. Beicio oddi ar ffyrdd a beicio di-draffig: datblygiadau yn y dyfodol .......... 20
5. Beicio mynydd: y sefyllfa bresennol .......... 28
6. Beicio mynydd: datblygiadau eraill y dyfodol .......... 34
7. Canfyddiadau meintiol: darparwyr llety .......... 39
8. Argymhellion .......... 61
9. Cyfeiriadau allanol .......... 63

# Rhestr o dablau a siartiau

## Tablau


- Tabl 1: sampl ymchwil llety fesul sector a rhanbarth


## Siartiau


- Ffigwr 1: Cyfanswm teithiau beicio y flwyddyn ar lwybrau beicio mynydd Cyfoeth Naturiol Cymru
- Ffigwr 2: Cyfanswm teithiau beicio y flwyddyn ar dri llwybr beicio mynydd mwyaf poblogaidd Cyfoeth Naturiol Cymru
- Ffigwr 3: C2 "Pa mor aml ydych chi'n derbyn gwesteion sy'n beicio tra'n aros yn yr ardal?"
- Ffigwr 4: C2 "Pa mor aml ydych chi'n derbyn gwesteion sy'n beicio tra'n aros yn yr ardal?" (canlyniadau fesul sector)
- Ffigwr 5: C2 "Pa mor aml ydych chi'n derbyn gwesteion sy'n beicio tra'n aros yn yr ardal?" (canlyniadau fesul rhanbarth)
- Ffigwr 6: C3 "Ydych chi'n derbyn mwy o westeion sydd ar deithiau beicio penodol, neu fwy sy'n beicio wrth ymweld â'r ardal ond nad dyna ydi prif ffocws eu taith?"
- Ffigwr 7: C4 "Ym mha fisoedd o'r flwyddyn ydych chi fel arfer yn derbyn gwesteion sy'n beicio yn yr ardal?"
- Ffigwr 8: C5 "Beth yw'r prif wledydd lle mae'r gwesteion hynny'n dod?"
- Ffigwr 9: C6 "Ydych chi'n gwybod pa fathau o feicio mae'r gwesteion hynny'n fwyaf tebygol o wneud pan maent yn yr ardal?"
- Ffigwr 10: C6 "Ydych chi'n gwybod pa fathau o feicio mae'r gwesteion hynny'n fwyaf tebygol o'i wneud pan maent yn yr ardal?" (Busnesau sy'n derbyn beicwyr penodol yn bennaf)
- Ffigwr 11: C6 "Ydych chi'n gwybod pa fathau o feicio mae'r gwesteion hynny'n fwyaf tebygol o'i wneud pan maent yn yr ardal?" (Busnesau sy'n derbyn rhai nad ydynt yn feicwyr penodol yn bennaf)
- Ffigwr 12: C7 "Sut maen nhw'n archebu eich llety?"
- Ffigwr 13: C9 "Ydych chi'n teimlo bod yn fusnes achrededig Croeso i Feicwyr wedi helpu eich busnes i ddenu beicwyr?"
- Ffigwr 14: C10 "Oes yna unrhyw fathau o wasanaeth neu gyfleuster sy'n gysylltiedig yn benodol i feicio y mae gwesteion yn gofyn i chi amdanynt?" (Digymell)
- Ffigwr 15: C11 "Oes gennych chi unrhyw ddiddordeb dod yn fusnes achrededig Croeso i Feicwyr?"

- Ffigwr 16: C12 (Heb ei achredu) "A yw eich busnes yn hyrwyddo ei hun mewn unrhyw ffordd i ddangos ei fod yn addas ar gyfer beicwyr, er enghraifft drwy restru cyfleusterau perthnasol?"
- Ffigwr 17: C13 (Heb ei achredu) "A yw eich llety ar hyn o bryd yn cynnig unrhyw un o'r gwasanaethau canlynol sy'n benodol ar gyfer beicwyr, neu'n bwriadu gwneud hynny?"
- Ffigwr 18: C13 (Heb ei achredu) "A yw eich llety ar hyn o bryd yn cynnig llefydd i storio beiciau'n ddiogel ac o dan do, neu'n bwriadu gwneud hynny?"
- Ffigwr 19: C14 "Oes yna unrhyw resymau penodol pam nad oes gennych chi ddiddordeb / nad ydych chi'n gwybod a oes gennych chi ddiddordeb dod yn fusnes achrededig Croeso i Feicwyr?" (Digymell)
- Ffigwr 20: C15 "Pa mor bwysig yw twristiaeth beicio ar gyfer dyfodol eich busnes?"
- Ffigwr 21: C16 "Beth, os o gwbl, ydych chi'n ei deimlo sydd ar goll yn yr ardal leol ar gyfer twristiaid sy'n ymweld?" (Digymell)
- Ffigwr 22: C16 % yn ateb yn ddigymell bod prinder llwybrau ar y ffordd sydd ag arwynebedd (canlyniadau'n cael eu dangos fesul rhanbarth o Gymru)
- Ffigwr 23: C16 % yn ateb yn ddigymell bod prinder ffyrdd diogel (canlyniadau'n cael eu dangos fesul rhanbarth o Gymru)

# 1. Crynodeb

## Awydd cryf i ddatblygu twristiaeth beicio yng Nghymru

Mae rhanddeiliaid yn awyddus iawn i weld twristiaeth beicio'n cael ei datblygu yng Nghymru. Mae'n cynhyrchu galw sylweddol am lefydd aros dros nos mewn rhai siroedd. Lle mae gan randdeiliaid gyfrifoldeb / ddiddordeb mewn hyrwyddo cyrchfannau eraill, ac nid dim ond Cymru, mae ganddynt ddiddordeb mewn llwyddiant Cymru fel cyrchfan beicio oherwydd eu bod yn credu bod yma botensial.

Mae'r diwydiant llety hefyd yn gefnogol iawn, gyda 43% (amcangyfrifedig) o ddarparwyr yng Nghymru yn disgrifio twristiaeth beicio fel rhywbeth sy'n 'bwysig' i ddyfodol eu busnes.

Os yw hwn yn faes cynnyrch y mae Croeso Cymru yn penderfynu ei flaenoriaethu, y man cychwyn yw cael nifer o randdeiliaid parod a chydweithredol.

## Cynnyrch apelgar

Mae adborth gan randdeiliaid a gwaith ymchwil i'r farchnad yn dangos, bod y cynnyrch sydd ei angen er mwyn denu twristiaid beicio eisoes yn bodoli yng Nghymru i raddau helaeth. Mae yna rwydwaith eang o lwybrau beic a llwybrau beicio mynydd. Mae'r dirwedd yng Nghymru yn amrywiol ac yn llawn golygfeydd, gan ei gwneud yn hynod o ddeniadol i dwristiaid sy'n beicio.

Mae nifer (47%) o ddarparwyr llety yn credu nad oes 'dim byd' ar goll o'u hardal leol ar gyfer beicwyr sy'n ymweld.

## Mae Lloegr yn farchnad hanfodol

Mae'r DU oddi allan i Gymru, a Lloegr yn bennaf, yn farchnad hanfodol ar gyfer twristiaeth beicio yng Nghymru. Mae bron i (99%) o ddarparwyr llety sy'n derbyn beicwyr sy'n ymweld yn dweud mai'r DU oddi allan i Gymru yw un o'r prif farchnadoedd. Mae hyn hefyd yn cael ei ategu gan randdeiliaid.

## Y galw fesul tymor

Mae'r gwanwyn a'r gaeaf yn cynnig llawer o alw am feicio yng Nghymru. Mae hyn yn fudd allweddol mewn twristiaeth beicio: mae'n llenwi gwelyau ar adegau o'r flwyddyn lle mae llefydd gwag.

## Angen gwella cynnyrch a'r rhwystrau

Mae'r pwyslais yn fwy ar wella a chynnal y cynnyrch yn well na'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd yn hytrach nag adeiladu nifer sylweddol o lwybrau newydd, o anghenraid. Mae'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yng Nghymru erbyn hyn tua 30 mlwydd oed ac mae rhai arwynebeddau yn dechrau dirywio.

Ar gyfer unrhyw lwybrau beicio newydd, mae mynediad at dir yn brif rwystr. Bellach nid oes yr un cymhelliant ariannol y gellir ei gynnig i berchnogion tir o'i gymharu â phan oedd y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn cael ei ddatblygu am y tro cyntaf.

## Beth yw'r cyfleoedd?

Ar gyfer pob math o feicio, mae rhanddeiliaid yn teimlo bod yna gyfle sylweddol i dyfu o ran denu mwy o fenywod a theuluoedd. Yn draddodiadol, mae beicio wedi bod yn gamp lle mae dynion wedi bod yn fwyaf amlwg ynddi, ond mae nifer o randdeiliaid yn awr yn ceisio symud canfyddiadau oddi wrth feicio sy'n gyfystyr â 'dynion mewn Lycra'.

Mae menywod a phlant yn fwy tebygol o ffafrio llwybrau byrrach, llai heriol ac eisiau pethau eraill i edrych ymlaen atynt ar y ffordd nid dim ond beicio drwy'r adeg. Y teimlad yw bod Cymru yn cynnig profiad mwy hamddenol gyda'i golygfeydd dengar a llefydd i ymweld â hwy.

Mae'r farchnad ar gyfer e-feiciau yn tyfu'n gyflym ac mae'n cynnig cyfleoedd pwysig er mwyn denu ystod eang o feicwyr, yn bennaf rhai sy'n llai abl yn gorfforol a rhai sy'n newydd i'r gweithgaredd. Mae yna heriau sylweddol o ran cost, yswiriant a phwyntiau gwefru diogel.

Gall digwyddiadau beicio fod yn gatalydd ar gyfer marchnata beicio yng Nghymru.

# 2. Cefndir a dull

## Pam mae'r gwaith ymchwil hwn wedi cael ei gomisiynu?

Nod Croeso Cymru yw adnabod cynnyrch twristiaeth diddordebau arbennig sydd â'r potensial i dyfu yn y dyfodol. Mae trafodaethau mewnol wedi adnabod beicio (ffordd, mynydd a graean) fel cynnyrch sy'n gallu bod yn rhan o gynnig creiddiol Cymru, sy'n alinio gyda gweledigaeth y brand (yn arbennig, tirweddau naturiol ac antur/gweithgareddau) ac sy'n cyfrannu at nodau llesiant a nodwyd mewn strategaethau megis Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles Pob Oed (Llywodraeth Cymru), a Gweithio gyda'n Gilydd ar gyfer Cymru Iachach (Iechyd Cyhoeddus Cymru), yn ogystal â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Credir bod beicio hefyd yn cynnig potensial da yn y tymhorau distaw, a fyddai'n alinio'n dda gyda nodau Croeso Cymru i dyfu twristiaeth y tu hwnt i benllanw tymor yr haf.

Bu i Croeso Cymru gomisiynu Strategic Research and Insight (SRI), asiantaeth ymchwil annibynnol wedi'i lleoli yng Nghaerdydd, er mwyn ymgymryd â gwaith ymchwil gyda'r diwydiant twristiaeth, darparwyr beicio a phartneriaid allweddol. Yr amcanion cyffredinol yw deall:

- Y capasiti ar gyfer twristiaeth beicio a'r galw presennol.
- Cryfderau a gwendidau'r cynnig twristiaeth beicio bresennol
- Rhwystrau a chyfleoedd o ran tyfu twristiaeth beicio

## Sut mae'r gwaith ymchwil wedi'i gynnal?

Mae gwaith ymchwil sylfaenol wedi'i gynnal mewn dau gam:

- Ymchwil ansoddol gyda darparwyr beicio a phartneriaid allweddol
- Ymchwil meintiol gyda busnesau llety twristiaid

Cafodd hyn ei wneud ochr yn ochr â gwaith ymchwil i'r farchnad eilaidd. Disgrifir y camau ymchwil isod.

## Cam Ansoddol

Mae Croeso Cymru wedi adnabod darparwyr beicio a phartneriaid allweddol er mwyn eu holi am gyfweliad mewn manylder. Mae cyfweliadau mewn manylder yn fath o ymchwil ansoddol, sydd yn hyblyg o ran natur ac nid yw'n dilyn cwestiynau caeth wedi eu sgriptio fel holiadur a ddefnyddir mewn gwaith ymchwil meintiol. Y pwrpas yw archwilio dyfnder yn hytrach na hyd a lled. Gall cyfweliadau barhau am tua hanner awr. Cynhaliodd SRI gyfanswm o 20 cyfweliad mewn manylder, ar draws ystod o sefydliadau:

- Cyrff cyhoeddus (7)
- Parciau beic (3)
- Trefnwyr teithiau beics (5)
- Trefnwyr digwyddiadau beicio (3)
- Elusennau beicio (2)

Trafodir yr adborth gan y prif randdeiliaid yma fesul thema yn adrannau 3 i 6. Mae canllawiau pwnc ar gael ar gais.

## Cam Meintiol

Yn dilyn y cam ansoddol, fe wnaeth SI gynnal 300 o gyfweliadau meintiol dros y ffôn gyda darparwyr llety i dwristiaid yng Nghymru. Mae ymchwil meintiol yn mesur hyd a lled gan ddefnyddio sampl mawr o ran maint, ac mae iddo bwrpas gwahanol i ymchwil ansoddol, sy'n archwilio adborth mewn mwy o fanylder.

Darparodd Croeso Cymru ddata cyswllt ar gyfer lletyau wedi'u graddio yng Nghymru. Cafodd hyn ei gefnogi gan letyau heb eu graddio gan frocer cronfa ddata'r diwydiant.

Er mwyn bod yn gymwys i gael eu cyfweld roedd yn rhaid i ymatebwyr gadarnhau bod twristiaeth beicio rhywfaint yn berthnasol i'w busnes. Cafodd manylion busnesau nad oeddent yn ystyried twristiaeth beicio yn berthnasol iddynt eu cofnodi er mwyn gallu cysodi amcangyfrif o'r ochr cyflenwi llety presennol yng Nghymru.

Roedd y sampl cymwys terfynol o fusnesau llety oedd yn teimlo bod twristiaeth beicio yn berthnasol i'w busnesau fel a ganlyn:

**Tabl 1: sampl ymchwil llety fesul sector a rhanbarth**

| Sector / Rhanbarth | Gogledd | Canolbarth | De-orllewin | De-ddwyrain | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Llety â gwasanaeth | 52 | 25 | 38 | 19 | **134** |
| Llety Hunanddarpar | 32 | 27 | 24 | 14 | **97** |
| Meysydd carafanau / gwersylla | 19 | 11 | 15 | 5 | **50** |
| Hostelau | 8 | 2 | 6 | 3 | **19** |
| **Cyfanswm** | **111** | **65** | **83** | **41** | **300** |

O fewn y sampl, mae yna 125 o fusnesau sydd ag achrediad 'Croeso i Feicwyr'. Yng Nghymru, mae hwn yn gynllun sy'n cael ei redeg fel rhan o gynllun graddio seren Croeso Cymru a'i nod yw cefnogi busnesau i ddatblygu eu cynnig o ran cynnyrch ar gyfer gwesteion sy'n beicio.

Mae'r canfyddiadau meintiol yn cael eu trafod yn adran 7. Mae'r holiadur ar gael ar gais.

## Ymchwil i'r farchnad

Darparodd Cyfoeth Naturiol Cymru ddata cyfrif ar gyfer teithiau beicio mynydd yn ei safleoedd a chaiff hyn ei grynhoi yn adran 5.

# 3. Beicio ffyrdd a di-draffig: y sefyllfa ar hyn o bryd

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn seiliedig ar gyfweliadau ansoddol gyda rhanddeiliaid a'r gwaith ymchwil i'r farchnad atodol. Mae dyfyniadau'n cael eu priodoli i'r math o randdeiliad. Mae sylwebaeth ddeongliadol yn seiliedig ar farn gyffredinol rhanddeiliaid sy'n berthnasol i'r is-adran honno, oni bai y nodir yn wahanol.

## Pwysigrwydd twristiaeth beicio

### Mae'r holl randdeiliaid yn gweld gwerth mawr mewn twristiaeth beicio yng Nghymru

Mae twristiaeth beicio yn golygu llawer i awdurdodau lleol sydd wedi cyfranogi yn y gwaith ymchwil hwn. Mae'n llunio rhan o Gynlluniau Rheoli Cyrchfannau a strategaethau digwyddiadau. Mae'n un o'r prif ffactorau sy'n creu galw am aros dros nos mewn rhai siroedd.

> "Twristiaeth beicio yw un o'r pethau sy'n creu'r galw am aros dros nos fwyaf yn ein sir"
> **Corff cyhoeddus**

Lle mae gan randdeiliaid gyfrifoldeb / ddiddordeb mewn hyrwyddo cyrchfannau eraill, nid dim ond Cymru (e.e. trefnwyr teithiau lle mae eu teithiau yn cynnwys gwledydd eraill), mae ganddynt ddiddordeb yn llwyddiant Cymru fel cyrchfan beicio oherwydd eu bod yn credu yn ei photensial i fod yn llwyddiannus wrth ddenu lefelau uchel o dwristiaid beicio.

### Gorgyffwrdd gydag agendâu beicio a buddsoddiadau

Mae twristiaeth beicio hefyd yn gorgyffwrdd gyda theithio iach / nodau iechyd a lles Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar gyfer poblogaethau lleol. Mae hyn yn golygu bod buddsoddiad wedi ei wneud mewn seilwaith y bwriadwyd iddo gael ei ddefnyddio gan breswylwyr lleol, ac y gall twristiaid beicio nawr hefyd elwa ohono.

> "Rydym wedi datblygu llwybrau beicio penodol er mwyn targedu ymwelwyr a phreswylwyr. Rydym yn awyddus i sicrhau bod pobl yn cadw'n iach ac yn heini, yn unol gyda Deddf Iechyd a Lles [sic]."
> **Corff cyhoeddus**

> "Rydyn ni'n ceisio cael pobl leol i fynd ar eu beiciau a'i gwneud yn ardal gyfeillgar i feiciau i bawb ... os yw'n ardal sy'n fwy cyfeillgar i feiciau yna bydd ein hymwelwyr yn gweld hynny hefyd"
> **Corff cyhoeddus**

# Ansawdd y cynnyrch cyfredol yng Nghymru

## Tirwedd drawiadol ac amrywiol

Y consensws yw bod gan Gymru dirwedd hynod o ddeniadol nad oes mo'i bath ond yn ychydig iawn o lefydd eraill. Er mwyn bod yn gyrchfan cystadleuol ar gyfer twristiaeth beicio, mae angen i'r llwybrau fod yn rhai sydd â golygfeydd.

## Llwybrau oddi ar y ffordd gydag arwynebedd da

Mae gan Gymru eisoes amrywiaeth eang o lwybrau beic oddi ar y ffordd yn llawer o'r wlad. Mae llwybrau poblogaidd yn cynnwys:

- Llwybr Taf (Aberhonddu i Fae Caerdydd). Defnyddir hwn yn aml ar gyfer digwyddiadau a theithiau noddedig
- Traws Eryri (Gwynedd)
- Ffordd Brailsford (Gwynedd)
- Llwybr Mawddach rhwng Dolgellau a'r Bermo (Gwynedd)
- Llwybr Arfordir Gogledd Cymru (o Gaergybi i Gaer). Mae rhai rhannau yn boblogaidd ond mae'r llwybr wedi dioddef o erydu arfordirol; ar hyn o bryd mae yna nifer o ddargyfeiriadau
- Llwybr Brunel (Sir Benfro)
- Rhannau o'r Llwybr Celtaidd ar draws de Cymru i Lwybr Arfordir y Mileniwm (Sir Gaerfyrddin) ac o Abertawe i Gydweli

Mae gan Sir Gaerfyrddin lwybr newydd yn ogystal: Dyffryn Tywi, sy'n agor yn 2025. Mae Conwy wedi denu £18.6m o arian Codi'r Gwastad ar gyfer llwybr Teithio Iach o'r Arfordir i'r Dyffryn yn Nyffryn Conwy, i'w ddefnyddio gan breswylwyr ac ymwelwyr.

## Nifer o gynnyrch traciau o safon uchel

Mae gan Gymru hefyd gynnyrch trac megis felodromau yn Sir Gaerfyrddin a Chasnewydd, a'r Gylchffordd Gaeëdig Genedlaethol yn Sir Gaerfyrddin. Er nad yw rhai cyfleusterau yn ymwneud yn bennaf â thwristiaeth, mae'r seilwaith hwn yn helpu i ddatblygu beicwyr elît yng Nghymru, a gallai hynny yn ei dro gryfhau'r canfyddiad o Gymru fel cenedl sy'n beicio. Mae pencampwr beicio'r byd presennol, ac enillydd medal aur beicio trac Olympaidd, Emma Finucane, a'r cyn feiciwr elît, Manon Lloyd, ill dwy wedi cael eu magu yn defnyddio'r cyfleusterau hyn yn Sir Gaerfyrddin.

## Mae Cymru'n cynnig cyfleoedd twristiaeth ehangach

Mae rhai yn teimlo bod cynnig beicio o ansawdd Cymru nid yn unig oherwydd y cynnyrch beicio, ond hefyd y cynigion o ran cyrchfannau o safbwynt atyniadau i dwristiaid a llefydd i ymweld â hwy. Mae un cyfranogwr yn dweud bod y potensial o ran twristiaeth nid yn unig yn dod o du allan i Gymru, ond oddi mewn i Gymru hefyd.

> "Dyw twristiaeth ddim ond am yr hyn mae pobl o'r tu allan sy'n dod i Gymru yn ei feddwl. Mae'n ymwneud ag addysgu a gadael i bobl Cymru wybod bod ganddyn nhw'r cyfleoedd mwyaf anhygoel ar stepen eu drws mewn gwirionedd."
> **Corff cyhoeddus**

## Mae rhai'n dweud bod lletyau yn cwrdd ag anghenion beicwyr ar hyn o bryd

Mae'r farn ynghylch priodoldeb lletyau yng Nghymru yn amrywio, a thrafodir y farn ynghylch y gwelliannau sydd eu hangen yn adran 4. Mae rhai rhanddeiliaid, fodd bynnag, yn teimlo bod lletyau yng Nghymru yn addas ar gyfer anghenion beicwyr.

## Terfynau cyflymder 20mya

Mae cyflwyno terfyn cyflymder 20 mya yn eang wedi achosi llawer o ymatebion negyddol ymysg busnesau twristaidd. Mae rhai busnesau'n honni mai dyna pam nad yw rhai ymwelwyr o Loegr yn hoffi dod draw. Mae hyn wedi cael ei adrodd yn yr adroddiadau Baromedr Twristiaeth ar gyfer Chwefror 2024 a Mehefin 2024.

Fodd bynnag, ar gyfer beicio, gall 20mya hefyd fod yn beth positif gan ei fod yn gwneud rhai rhannau o'r ffyrdd yn fwy diogel.

> "Mae'r terfyn cyflymder 20mya i arafu traffig yn gymaint o help i feicwyr"
> **Elusen**

Fodd bynnag, mae un trefnydd digwyddiadau'n dweud bod terfynau cyflymder 20mya wedi achosi problemau gyda digwyddiadau beicio ar y ffyrdd.

> "Rydyn ni'n gorfod dod o hyd i ffyrdd lle nad ydych chi'n mynd drwy barthau 20mya. Rydyn ni'n ceisio cael esemptiadau ar gyfer The Big Road Race. Byddai'r confoi yn mynd yn ei flaen ac yna'n arafu ac wedyn byddai'r beicwyr yn dod drwyddo."
> **Corff cyhoeddus**

## Gwendidau yn y cynnyrch cyfredol yng Nghymru

Y farn gyffredinol yw bod y cynnyrch presennol yng Nghymru ar gyfer beicio ar y ffordd ac oddi ar y ffordd, yn gryf. Dylid darllen yr awgrymiadau isod felly yn y cyd-destun hwn, ac nad yw'r gwelliannau sydd eu hangen yn awgrymu bod angen newid y cynnyrch yn ei hanfod.

### Gall ffyrdd amrywio ac nid ydynt wastad yn gyfeillgar tuag at feicwyr

Mae beicio ar y ffordd angen arwynebeddau esmwyth, da, heb dyllau, a gyrwyr cwrtais sy'n dangos parch at feicwyr. Gall hyn fod yn broblem mewn mannau.

### Dirywiad mewn arwynebeddau rhai llwybrau beicio

Mae'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol wedi bod yn ei le erbyn hyn ers tua 30 mlynedd, ac mae rhai arwynebeddau angen eu hatgyweirio. Mae rhanddeiliaid wedi crybwyll bod digwyddiadau tywydd eithriadol sydd fel petaent yn digwydd yn amlach, ynghyd â newid hinsawdd yn golygu y gall fod yn anodd ymdopi gyda'r gwaith atgyweirio, yn arbennig felly o amgylch ardaloedd arfordirol.

> "Mae angen buddsoddi oherwydd mae gennym rwydwaith sy'n 30 mlwydd oed ac mae rhai rhannau bellach angen eu gwella. Mae'r arwynebedd yn dirywio ac mae galw cyson am arwyddion, ac yn y gorffennol, mae'r rhwydwaith wedi dioddef oherwydd rhwystrau at fynediad."
> **Elusen**

### Mae'r rhwydwaith yn ddiffygiol yng ngogledd-ddwyrain Cymru a rhai rhannau o ganolbarth Cymru.

Er bod y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yng Nghymru yn eang, roedd un cyfranogwr yn teimlo ei fod yn ddiffygiol yng ngogledd-ddwyrain Cymru a bod angen 'llenwi'r' bwlch yma.

> "Mae tua phedwar neu bum bwlch i fyny at y ffin gyda Swydd Gaer ac ar draws i ardal y Bala sydd angen eu llenwi"
> **Elusen**

### Dim digon o lonydd cylchol

Mae un trefnydd teithiau yn ei chael hi'n anodd gwneud teithiau beicio yng Nghymru yn gynaliadwy oherwydd bod yn well ganddynt lwybrau cylchol yn hytrach na rhai llinellol, a oedd yn eu hachos hwy yn golygu trefnu trafnidiaeth ar gyfer un cyfeiriad.

> “Mae’n gweithio’n iawn mewn grwpiau lle mae gennych chi fws teithio i gludo popeth ond dyw pethau byth yn gweithio allan felly nac yn wyrdd ychwaith”
> **Trefnydd teithiau**

### Rhai rhwystrau rhag dod yn fusnes achrededig ‘Croeso i Feicwyr’

Mae rhai busnesau yn gwneud cais am achrediad Croeso i Feicwyr (gweler paragraff 2.11 am ragor o fanylion) ac mae ganddynt eisoes y gwasanaethau a’r cyfleusterau angenrheidiol yn eu lle. Nid oes gan ymgeiswyr eraill, ac maent yn rhoi’r ffidl yn y to o ran ceisio bodloni’r gofynion. Mae yna rai busnesau sy’n cael trafferth gyda gwasanaethau llai megis darparu pecynnau cymorth cyntaf ac atgyweirio pynjar oherwydd eu bod yn cael eu colli ac mae’n gost i barhau i’w hailgyflenwi. Mae rhanddeiliaid yn dweud bod y problemau hyn yn rhwystr rhag cynyddu’r nifer o fusnesau llety achrededig.

> “Mae mapiau, canllawiau, pecynnau atgyweirio pynjar ac eitemau o’r pecyn cymorth cyntaf yn mynd ar goll yn rheolaidd. Mae’r gost o orfod cynnal ac ailgyflenwi eitemau yn atal busnesau rhag ymgeisio.”
> **Corff cyhoeddus**

## Marchnadoedd presennol a lefelau o’r defnydd a wneir

### Defnyddio rhwydwaith beicio

Mae adborth gan Sustrans yn amcangyfrif bod oddeutu 45 miliwn o deithiau beics yn cael eu gwneud yn flynyddol ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yng Nghymru (defnyddir rhai llwybrau gan gymudwyr yn ogystal â beicwyr hamdden a thwristiaeth). Yr adran fwyaf poblogaidd yw Llwybr Taf (sy’n rhedeg rhwng Caerdydd ac Aberhonddu).

### Mae Lloegr yn farchnad allweddol

Mae adborth gan drefnwyr teithiau yn dangos bod y farchnad yn Lloegr yn allweddol ar gyfer twristiaeth beicio yng Nghymru. Mae un trefnydd yn dweud bod y farchnad hon yn cyfrif am oddeutu 80% o’u hymwelwyr i Gymru. Yn ogystal â denu ymwelwyr o rannau eraill o’r DU, mae Cymru hefyd yn denu twristiaid sy’n beicio o wledydd Ewropeaidd gerllaw a gwledydd pellach sy’n siarad Saesneg (e.e. UDA, Awstralia).

Yn ne Cymru, mae coridor yr M4 sydd â phoblogaeth uchel, gan gynnwys Caerdydd, Bryste a Llundain, yn brif ffynhonnell ymwelwyr.

Mae trefnwyr digwyddiadau’n dweud bod digwyddiadau beicio sy’n cael eu cynnal yng Nghymru hefyd yn denu cyfran fawr o gyfranogwyr o Loegr. Mae rhai digwyddiadau proffil

uchel penodol megis UCI Gravel World Series, sydd â ras yn Sir Ddinbych, yn gallu ymestyn yn ehangach, a denu nifer o gyfranogwyr o Ewrop a chyfandiroedd eraill.

### Galw sylweddol tymor distawach

Mae yna alw sylweddol am feicio drwy gydol y gwanwyn a'r hydref. Nid oes ganddo'r un galw sylweddol a geir ar ei brysuraf yn yr haf sydd gan rannau eraill o'r cynnig twristiaeth (e.e. gwyliau traeth).

## Anghenion hygyrchedd

### Mae rheolau hygyrchedd yn amharu ar rai mathau o ddefnyddwyr beics

Mae gan rai rhannau o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yng Nghymru nodweddion rheoli mynediad a allai ei gwneud hi'n anodd i ddefnyddwyr gael eu beiciau drwyddo: er enghraifft, beiciau tandem. Gall rhai beicwyr llai abl yn gorfforol hefyd gael trafferth gyda rhai nodweddion rheoli mynediad. Mae un rhanddeiliad yn dweud bod ymdrechion yn parhau er mwyn gallu gwaredu'r nodweddion rheoli mynediad yma, ar sail Deddf Cydraddoldeb 2010.

### Llwybrau gwastad, di-draffig ar gyfer beicwyr llai abl yn gorfforol

Mae Cymru yn cynnig nifer o lwybrau gwastad sydd yn ddeniadol i feicwyr sy'n chwilio am brofiad sy'n llai heriol yn gorfforol. Mae rhai llwybrau yn dilyn rheilffyrdd nad ydynt yn cael eu defnyddio bellach, ac mae'r rhain yn cynnig profiad mwy hygyrch.

> "Gallai mwy o ariannu ar gyfer datblygu llinellau rheilffyrdd nad ydynt yn cael eu defnyddio arwain at lwybrau o safon uchel ar gyfer ymwelwyr"
> **Elusen**

> "Mae hen linellau rheilffyrdd wedi eu trawsnewid yn llwybrau amser hamdden. Mae'r rhain yn boblogaidd iawn gydag ymwelwyr. Maent yn addas ar gyfer pawb: pobl sydd ag anableddau a rhai sydd â theuluoedd."
> **Corff cyhoeddus**

### Teuluoedd gyda phlant ifanc yn tueddu i feicio pellteroedd llai a bod angen rhywbeth i'w wneud

Os ydynt ar daith, bydd trefnwyr yn ystyried anghenion teuluoedd sydd â phlant ifanc. Maent yn fwy tebygol o fod angen pellteroedd cymharol fyr a phethau eraill i'w gwneud ar hyd y ffordd heblaw am feicio yn unig. Ar y cyfan, mae rhanddeiliaid yn teimlo bod Cymru yn cynnig hyn.

# Teithiau beicio

## Trosolwg o'r hyn mae trefnwyr yn ei gynnig yn gyffredinol

Gall teithiau beicio (gwyliau) fod yn rhai sy'n cael eu harwain neu'n rhai hunan-arwain. Os yw taith wedi'i hanelu at feicwyr mwy hamddenol, mae'r llwybrau'n fwy tebygol o fod ar lwybrau beicio neu ffyrdd tawel ac maent yn cynnwys ymweld ag atyniadau o'u cymharu gyda theithiau sydd wedi'u targedu tuag at feicwyr mwy profiadol ar ffyrdd. Ar deithiau mwy 'hamddenol', mae trefnwyr teithiau yn aml yn ystyried beicio fel ffordd o ddangos cyrchfan i ymwelwyr yn hytrach na dim ond y beicio. Mae'r teithiau hamddenol hyn yn gwerthu'n arbennig o dda.

> "Rydych chi'n cael profiad llawn o Sir Benfro mewn ffordd hwyliog, unigryw. Rydym yn ceisio chwalu'r syniad mai beicio yw dynion mewn Lycra."
> **Trefnydd teithiau**

Mae teithiau tywys yn dueddol o gael cefnogaeth fan ar gyfer cludo bagiau a phecynnau picnic.

Ar deithiau tywys, gall trefnwyr argymell mannau sydd o ddiddordeb a llefydd i fwyta ar y ffordd. Mae un trefnydd yn defnyddio ap o'r enw 'Ride with GPS' er mwyn gwneud hyn.

Mae addasrwydd y caffis sy'n cael eu hargymell gymaint i'w wneud gyda safon y bwyd, y gwasanaeth ac adolygiadau cyffredinol gan gwsmeriaid, ag a yw'r cyfleusterau ar gyfer beicwyr gan nad ydynt ond angen lle i gadw'r beiciau'n ddiogel, ac mae hyn yn cael ei gymryd yn ganiataol oni bai bod y caffi mewn canol tref. Mae trefnwyr yn gweithio gyda phartneriaid ar gyfer trosglwyddo bagiau.

Gall teithiau naill ai fod ar hyd un llinell neu fod wedi eu lleoli mewn un ganolfan neu ychydig o ganolfannau.

## Beth sydd ei angen mewn llety?

Mae trefnwyr teithiau yn dweud bod gallu storio beiciau yn ddiogel yn allweddol os yw darparwr llety am gael ei ystyried gan drefnwyr. Mae E-feiciau yn dod yn llawer mwy poblogaidd ac mor ddiogel (h.y. y tu allan) felly mae angen pwyntiau gwefru. Mae hyn oherwydd eu bod yn achosi perygl tân (Adran Drafnidiaeth, Batris e-feiciau ac e-sgwteri: rheoli peryglon tân ar gyfer eiddo).

> "Stori beic yw'r prif beth sy'n hollol angenrheidiol"
> **Trefnydd teithiau**

Fel arall mae yna ychydig o wasanaethau / cyfleusterau eraill sy'n gallu troi pethau i ffafrio y naill lety yn cael ei ddewis yn lle'r llall, ond nid ydynt o reidrwydd yn golygu y bydd hynny'n

digwydd, yn dibynnu ar p'un a oes gan y trefnydd opsiynau gwell yn yr ardal. Mae'r rhain yn cynnwys amseroedd bwyd hyblyg, lle i lanhau beiciau a gorsaf drwsio.

> "Wedi i gwsmeriaid gyrraedd cyrchfan, yn ddelfrydol fydden ni ddim yn dymuno iddynt orfod gadael eto [i chwilio am ginio]"
> **Trefnydd teithiau**

> "Os oes lle sy'n cynnig rhywle i lanhau beiciau, gorsaf atgyweirio, rydym yn fwy tebygol o ystyried y llety yna yn hytrach na rhywle arall"
> **Trefnydd teithiau**

Gyda rhai marchnadoedd megis Gogledd America, mae yna lawer mwy o bwyslais ar lety safon uchel 'bwtîc'. Mae bod yn gyfforddus yn allweddol.

## Beth yw'r marchnadoedd craidd?

Mae cwsmeriaid teithiau beicio yn aml dros 40 oed. Mae dynion yn cael eu denu i'r gweithgaredd, ond mae merched hefyd yn mynd ar deithiau beiciau, yn arbennig os ydynt yn teithio gyda'u partner gwrywaidd. Mae un trefnydd teithiau yn awyddus iawn i symud canfyddiadau beicio i ffwrdd oddi wrth dynion sy'n hoffi chwaraeon.

> "Nid bod yn ddyn tenau, yn gyhyrog ac yn ddeniadol yw'r flaenoriaeth. Mae ar gyfer unrhyw un sy'n gallu mynd ar gefn beic. Maen nhw'n gallu beicio oddi ar y ffordd, a gweld ychydig o gefn gwlad trawiadol a dod yn ôl yn llawn cyffro."
> **Trefnydd teithiau**

## Beth mae trefnwyr yn ei feddwl o'r cynnig sydd gan Gymru ar gyfer teithiau beicio?

Yn fras, mae gan Gymru gynnyrch gwych ond nid yw'n cael ei hyrwyddo'n ddigon da. Mae'r dirwedd hardd amrywiol, naturiol yn ei gwneud hi'n ddelfrydol ar gyfer cyrchfan gwyliau beicio, ond mae'r prinder galw yn golygu bod rhai trefnwyr teithiau yng Nghymru wedi cael eu tynnu o bortffolios trefnwyr.

> "Mae gennym ni isafswm nifer o bump neu chwech o bobl ac ni lwyddodd y daith [i sir Gaerfyrddin a Bannau Brycheiniog] i ddenu digon o bobl er mwyn bwrw ymlaen. Mae yna gost ynghlwm wrth gadw gwyliau i fynd a doedden ni, yn syml iawn, ddim yn cael digon o archebion felly fe wnaethon ni ymlacio dros y gwyliau hwnnw. Roedd hi'n dirwedd braf, ac roedd y gwestai'n rhai braf."
> **Trefnydd teithiau**

Tybir bod rhai ymwelwyr posib hefyd yn peidio â dewis gwyliau o'r fath oherwydd eu bod yn credu y byddai Cymru yn rhy fryniog ar gyfer beicio hamddenol.

## Ychydig o broblemau gyda'r cynnyrch 'atodol'

Tra bod y cynnyrch beicio craidd (llwybrau ac arwynebedd) yn cael ei ystyried yn dda gan drefnwyr, mae rhai yn gwneud sylw bod y cynnyrch atodol megis llety addas, cludiant sy'n gyfeillgar i feiciau a llefydd am fwyd a diod ychydig yn ddiffygiol mewn rhai ardaloedd.

Mae un trefnydd teithiau sy'n targedu marchnad Gogledd America hefyd yn dweud bod yna brinder llety arddull 'bwtîc' sy'n ddisgwyliedig gan y farchnad. Mae yna hefyd broblemau i sicrhau cyflenwyr megis atyniadau i ymrwymo i dderbyn teithiau yn ddigon ymlaen llaw ar gyfer pan fydd y teithiau o bell yma yn cael eu trefnu.

> "Y peth cyntaf rydym yn ei wneud yw edrych i weld pa lety moethus sydd yna, lle mae o, a gweithio'n ôl o'r fan honno. Yng Nghymru mae cyn lleied ohonynt. Mae'n sicr yn ffactor sy'n cyfyngu ar bethau."
> **Trefnydd teithiau**

> "Rydym wedi colli archebion yn y gorffennol oherwydd bod ein taith yn ddibynnol ar fod yn gallu defnyddio atyniad ar ddiwrnod penodol ar amser penodol"
> **Trefnydd teithiau**

## Anghenion hygyrchedd

Gall trefnwyr teithiau ddarparu ar gyfer gwahanol anghenion drwy gael teithiau beicio byrrach a phethau i'w gwneud heblaw am feicio ar gyfer plant, archebu beiciau tandem ar gyfer rhai sy'n rhannol ddall, a chynllunio ymlaen gyda dewis o lwybrau a gwestai ar gyfer anghenion eraill. Mae trefnwyr teithiau sy'n credu bod ganddynt wybodaeth ddigonol am Gymru yn gyffredinol yn teimlo y gallent ddarparu ar gyfer yr anghenion hyn yng Nghymru, yn arbennig felly dod o hyd i bethau diddorol i'w gwneud ar y ffordd heblaw am feicio.

# Digwyddiadau beicio yng Nghymru

## Rhai rasys proffil uchel

Mae trefnwyr digwyddiadau beicio wedi rhoi rhai enghreifftiau o rasys beicio proffil uchel diweddar yng Nghymru:

- UCI Gravel World Series
- Tour of Britain (dynion)
- Tour of Britain (menywod)

Mae rasys proffil uchel yn dueddol o ddenu beicwyr ieuengach (mwy ffit a chystadleuol), a gallant ddod o bob rhan o'r byd. Mae rhai yn dod i Gymru ymlaen llaw i hyfforddi ar lwybr y ras.

Mae yna hefyd lai o rasys proffil uchel sy'n dueddol o ddenu cyfranogwyr ar hyd a lled y DU ac weithiau o wledydd eraill. Mae'n bosib y bydd rhai cyfranogwyr yn gwneud taith feicio yng Nghymru tra byddant yn y wlad.

## Mae rhai digwyddiadau yn rhai anghystadleuol

Mae rhai digwyddiadau beicio yn dod â beicwyr at ei gilydd yn un lle ond nid yw'r digwyddiad yn un cystadleuol. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Carten100 (O Gaerdydd i Ddinbych-y-pysgod)
- Daffodil Ride: yn dechrau o Lanymddyfri yn sir Gaerfyrddin
- Tour de Môn (Ynys Môn)

Mae'r farchnad graidd ar gyfer digwyddiadau anghystadleuol yn dueddol o fod yn ddynion rhwng tua 35 a 65 oed. Y rheswm dros yr oedran cymharol 'hŷn' yw bod nifer o ddynion yn rhoi'r gorau i deithio ar gyfer digwyddiadau beicio pan mae ganddynt blant ac yna'n dychwelyd yn nes ymlaen mewn bywyd pan mae ganddynt fwy o amser a rhyddid.

Mae rhai trefnwyr yn ceisio denu mwy o fenywod.

> "Rwy'n teimlo bod yna fwy o ferched yn beicio, ond nad ydyn nhw'n cymryd rhan mewn digwyddiadau"
> **Trefnydd digwyddiadau**

## Beth yw manteision digwyddiad o'i gymharu gyda'r gyrchfan?

Mae rhai trefnwyr yn dweud bod y llety a'r bwytai yn yr ardal leol yn llawn yn ystod amser y digwyddiad. Mae un trefnydd yn teimlo nad yw gwerth y digwyddiad maent yn ei drefnu yn cael ei ddeall gan yr awdurdod lleol.

> "Er mwyn dod â digwyddiad o safon byd i gyrchfan, rydym angen cefnogaeth gan y cyngor lleol a'r bwrdd twristiaid. Am ryw reswm yng Nghymru, does dim awydd i wneud hyn. Mae'n debyg iawn i geisio gwthio dŵr i fyny'r allt ... Mae cymaint o fuddion i'r economi leol. Mae'r hosteli'n llawn am filltiroedd lawer. Dydych chi ddim yn gallu cael bwrdd mewn bwyty y noson flaenorol na'r noson wedyn."
> **Trefnydd digwyddiadau**

## Galw Tymhorol

Mae llawer o alw yn y gwanwyn a’r hydref. Mae’r gaeaf yn fwy anodd ar arwyneb megis graean oherwydd mae digwyddiadau’n gweithio’n well pan mae’r tir yn fwy cadarn.

Dyw gwyliau’r haf ddim yn amser gorau ar gyfer digwyddiadau oherwydd mae rhai beicwyr yn treulio amser i ffwrdd gyda’u teuluoedd eu hunain. Mae llwybrau mewn coedwigoedd hefyd yn dawelach y tu allan i wyliau ysgol ac felly mae digwyddiadau sy’n eu defnyddio fel arfer yn cael eu hamseru er mwyn cymryd mantais o hyn.

## Gellir eu defnyddio fel catalydd ar gyfer ffocws yn y dyfodol

Mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweld gwerth mawr mewn digwyddiadau beicio yn eu sir. Mae’n bosib y defnyddir cyllid i hyrwyddo beicio yn y sir tra mae’r digwyddiad yn denu sylw.

> “Mae digwyddiadau yn flaenoriaeth strategol. Maen nhw’n creu awyrgylch fywiog yn y gymuned.”
> **Corff cyhoeddus**

## Anghenion hygyrchedd

Gall trefnwyr digwyddiadau anghystadleuol gwrdd ag anghenion hygyrchedd gydag e-feiciau a rhai llwybrau byrrach.

# 4. Beicio oddi ar ffyrdd a beicio di-draffig: datblygiadau yn y dyfodol

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn seiliedig ar gyfweliadau ansoddol gyda rhanddeiliaid a'r gwaith ymchwil i'r farchnad atodol. Mae dyfyniadau'n cael eu priodoli i'r math o randdeiliad. Mae sylwebaeth ddeongliadol yn seiliedig ar farn gyffredinol rhanddeiliaid sy'n berthnasol i'r is-adran honno, oni bai y nodir yn wahanol.

## Hyrwyddo, cyfleoedd a thargedu

### Mae angen hyrwyddo yn fwy na datblygu cynnyrch

Mae angen rhai gwelliannau cynnyrch, ac mae'r rhain yn cael eu trafod yn ddiweddarach yn yr adran hon. Fodd bynnag, y farn gyffredinol yw mai'r gwendid pennaf o ran y cynnig beicio heb ffyrdd na thraffig yng Nghymru yw'r diffyg hyrwyddo yn hytrach na'r prinder cynnyrch.

> "Mae ein gwaith ymchwil yn dangos nad yw hwn yn amgylchedd 'adeiladwch ac fe ddônt'".
> **Elusen**

> "Mae'r posibiliadau'n ddi-ben-draw. Mae'r dirwedd mor amrywiol, mor anhygoel. Mae'r cyfleoedd yn bodoli o feicio oddi ar y ffordd i deuluoedd mewn coedwigoedd lled wastad i fryniau eithriadol o serth ar gyfer beicio mynydd."
> **Elusen**

> "Sut ydym ni'n cysylltu'r gwahanol bartïon er mwyn rhoi'r wybodaeth yna mewn porth? Rwy'n meddwl y byddai'n newid natur beicio yng Nghymru. Byddai pobl yn gwybod mewn tri neu bedwar clic a ydyn nhw'n gallu mynd i rywle, mae yna lwybr 10k, fyddan nhw ddim yn gweld traffig, mae'n ddiogel, bydd caffis ar y ffordd."
> **Corff cyhoeddus**

### Wrth ein bodd yn clywed bod Croeso Cymru yn buddsoddi amser yn y maes hwn

Mae cynnal y gwaith ymchwil hwn yn dangos i randdeiliaid bod Croeso Cymru o leiaf yn edrych ar dwristiaeth beicio fel blaenoriaeth posib ar gyfer y dyfodol. Er eu bod yn deall nad oes unrhyw addewidion yn cael eu gwneud, bydd yn cael ei flaenoriaethu, ac maent yn awyddus i weithio gyda Croeso Cymru os yw hyn yn wir.

> "Mae hyn yn 12 mis, yn flwyddyn i ni. Rydyn ni'n wirioneddol falch bod Croeso Cymru yn edrych ar hyn."

**Corff cyhoeddus**

> "Mae'n gyfrifoldeb arnom ni yn bennaf i'w hyrwyddo, ond byddai'n ddefnyddiol pe baem i'n gallu ymuno gyda Croeso Cymru, fel rydym yn ei wneud gyda 'Visit Yorkshire [sic]' er enghraifft"
> **Trefnydd teithiau**

> "Rydych chi'n gallu cydweithio ag eraill ar Facebook ac Instagram nawr. Byddai'n ffordd gyflym a rhwydd iawn o hyrwyddo beicio yng Nghymru. Pe bai yna ymgyrchoedd penodol, byddem ni'n gallu cysylltu gyda Croeso Cymru, a byddai'n helpu'r farchnad at oes newydd."
> **Trefnydd digwyddiadau**

## Codi ymwybyddiaeth o'r hyn sydd gan Gymru eisoes

Mae yna ganfyddiad bod Cymru yn colli'r cyfle i fanteisio ar gyfleoedd oherwydd nad ydi defnyddwyr, ac ambell waith, busnesau (trefnwyr oddi allan i Gymru a busnesau lletyau yng Nghymru) yn gwbl ymwybodol o'r cynnyrch beicio sydd ganddo eisoes.

> "Mae angen gwneud gwaith i hybu gwerthiant er mwyn dweud wrth ein darparwyr llety am y cynnyrch beicio sydd gennym ni er mwyn iddynt allu dweud wrth eu cwsmeriaid"
> **Corff cyhoeddus**

> "Dydw i ddim yn credu ein bod yn gwneud jobyn digon da o sut rydyn ni'n cyfathrebu ac yn cyfeirio er mwyn ei gwneud hi'n hollol hawdd i bobl wybod: i ble alla i fynd? Mae gen i ddau o blant, dydw i ddim am fynd â nhw ar y ffordd, rydw eisiau iddyn nhw fod ar lwybr diogel."
> **Corff cyhoeddus**

Mae yna hefyd rai canfyddiadau ymysg cwsmeriaid bod Cymru yn rhy fryniog ar gyfer beicio hamddenol. Mae codi ymwybyddiaeth bod llwybrau mwy gwastad ar gael yn bwysig er mwyn trechu'r canfyddiad yma.

> "Pan mae pobl yn meddwl am Gymru ar gyfer beicio, mae'n bosib nad ydynt yn ystyried ei bod yn llai heriol."
> **Trefnydd teithiau**

## Cyfleoedd ar gyfer cysylltu trefi a phrofiadau â thema

Un rôl allweddol ystyrir y dylai fod Croeso Cymru yn ei wneud yw cysylltu'r llwybrau beicio craidd gyda'r atyniadau a'r llefydd i ymweld â hwy. Byddai hyn yn creu pecyn o'r cynnig cyflawn o fewn profiad gwyliau beicio wedi'i ddiffinio sy'n gallu cael ei hyrwyddo gan Croeso Cymru a phartneriaid cyhoeddus a masnachol.

> "Mae yna gyfle enfawr i hyrwyddo teithio o bell a phrofiadau beicio â thema"
> **Elusen**

## Agwedd unedig gydag achrediad Croeso i Feicwyr

Yn ogystal ag uno llwybrau beicio gydag atyniadau a llefydd i ymweld â hwy, byddai rhai rhanddeiliaid hefyd am weld lletyau achrededig ‘Croeso i Feicwyr’ yn cael eu hyrwyddo’n eglur. Mae’r canfyddiadau meintiol gyda’r arolwg busnesau llety yn adran 7 yn dangos nad yw nifer o fusnesau achrededig yn teimlo eu bod yn gweld unrhyw fudd o fod ar y cynllun. Mae’n bosib nad yw ymwelwyr yn gwybod am y cynllun na ble i ddod o hyd i fusnesau achrededig, hyd yn oed bod rhai busnesau achrededig yn rhwydweithio ac yn darparu llwybrau.

> “Gall busnesau rwydweithio a darparu llwybrau os ydynt wedi cael eu hachredu.”
> **Corff cyhoeddus**

## Marchnadoedd newydd

Mae rhai yn gweld y potensial ar gyfer twf i Gymru gyda rhannau o’r farchnad nad ydynt ar hyn o bryd yn feicwyr profiadol iawn sy’n mynd ar wyliau beicio’n rheolaidd (fel arfer, grwpiau o ddynion), ond yn hytrach rhai a fyddai gan fwy o ddiddordeb mewn profiad hamddenol gyda phethau eraill i’w gwneud/gweld heblaw am ddim ond beicio. Awgrymir y byddai grwpiau o deuluoedd a menywod yn unig am weld profiad hamddenol fel yma.

> “Rydym wedi ffurfio partneriaeth gyda Breeze. Dyma rwydwaith o fenywod o’r un anian sydd eisiau’r gofod yna ar gyfer benywod yn unig. Mae gwirfoddolwyr yn arwain taith ar lwybr diogel; maent yn gallu cael coffi a chacen hanner ffordd drwyddo.”
> **Corff cyhoeddus**

## Ehangu digwyddiadau a theithiau

Mae rhai trefnwyr digwyddiadau a threfnwyr teithiau yn awyddus i ehangu eu cynnig yng Nghymru os gellir goresgyn y rhwystrau, a drafodir yn ddiweddarach yn yr adran dan rwystrau rhag datblygiad.

> “Rydym yn gobeithio mynd i edrych ar lwybr Traws Eryri a thraws-Cambria y flwyddyn nesaf ... rydym yn eithaf gobeithiol o gael cynnyrch yn 2026. Rydym yn ymwybodol iawn nad oes gennym ni gynnyrch yng Nghymru ar hyn o bryd ac rydym yn awyddus i gael rhywbeth y mae modd ei werthu ac sy’n broffidiol.”
> **Trefnydd teithiau**

> “Rydym eisiau mynd o ddau ddigwyddiad yng Nghymru i chwech, saith neu hyd yn oed deg, gan gynnig profiadau newydd yn yr holl lefydd gwahanol”
> **Trefnydd digwyddiadau**

Gellir defnyddio digwyddiadau fel catalydd ar gyfer tyfu twristiaeth beicio a gellir gwneud hyn ar hyd y flwyddyn.

> "Mae digwyddiadau'n helpu i dynnu sylw at gyrchfan. Maen nhw eisoes yng Nghymru, lle mae yna swm enfawr o arian wedi cael ei wario ar ddatblygu llwybrau newydd, ond does neb wir yn gwybod amdanyn nhw."
> **Trefnydd digwyddiadau**

# Angen cynnyrch

## Mae angen gwella'r rhwydwaith sy'n heneiddio

Mae rhanddeiliaid yn teimlo er bod cyfleoedd i ychwanegu at y rhwydwaith o lwybrau beicio a ffyrdd sy'n gyfeillgar i feics, mae gan Gymru eisoes Rwydwaith Beicio Cenedlaethol ac mae hyn angen buddsoddiad. Y gwelliannau sydd eu hangen mewn rhai llefydd yw gwaith atgyweirio arwyneb, arwyddion, tynnu rhwystrau i fynediad a chwblhau rhannau 'anodd' o'r llwybrau sydd wedi gorfod symud dros dro i fod ar y ffyrdd.

Mae teuluoedd angen profiad dibynadwy, ac mae'r gwelliannau hyn eu hangen er mwyn gwarantu hynny iddynt.

> "Mae teuluoedd ifanc angen rhywbeth disgwyliadwy. Dyna beth sydd ar goll ar hyn o bryd. Dydyn ni ddim bob amser yn gallu gwarantu bod beicwyr yn mynd i gael y profiad lefel uchel yna ar draws y rhwydwaith cyfan."
> **Elusen**

Mae yna awydd am ffyrdd newydd, fel y crybwyllwyd, byddai ffyrdd mwy cylchol a mwy o lwybrau yng ngogledd-ddwyrain Cymru yn gwella'r rhwydwaith. Gall llinellau rheilffyrdd, nad ydynt yn cael eu defnyddio, gael eu haddasu i greu llwybrau hygyrch ar gyfer pob gallu.

## Lletyau sy'n gyfeillgar ar gyfer beiciau ar gyfer digwyddiadau a rhai teithiau

Tra mae rhai rhanddeiliaid yn teimlo bod diogon o letyau sy'n gyfeillgar i feicwyr, roedd un trefnydd teithiau ac ychydig o drefnwyr digwyddiadau yn teimlo bod hyn yn ddiffygiol mewn llefydd pwysig. Mae galw mawr am lety yn yr ardal pan fydd digwyddiad yn cael ei gynnal felly byddai'r cyflenwad yn gallu bodloni'r galw yn well pe bai mwy o sefydliadau llety o fewn ardal y digwyddiad sy'n gyfeillgar i feicwyr.

## Cerbydau dal beiciau ar drenau

Er bod cyfleusterau ar drenau yn cynyddu, mae rhai'n dweud bod angen i hyn barhau i gynyddu. Gall hyn helpu gyda llwybrau llinol, oherwydd oni bai bod beicwyr dros nos yn

cynllunio i symud i wahanol lety ar gyfer y noson sy'n dilyn, byddant angen ffordd o ddod yn ôl i'r man cychwyn. Gall hyn fod yn ffordd hir yn ôl i deuluoedd. Mae trafnidiaeth gyhoeddus hefyd yn helpu i wneud digwyddiadau yn fwy cynaliadwy.

> "Dyw pobl ddim yn gallu dod i'n digwyddiadau [yng Nghymru] ar drafnidiaeth gyhoeddus. Dyw trenau ddim yn caniatáu i ddigon o feiciau gael eu cludo."
> **Trefnydd digwyddiadau**

## Llogi beiciau: yn arbennig e-feiciau

Os yw beicwyr mwy 'hamddenol' yn cael eu denu i Gymru a bod beicio ond yn rhan o weithgareddau'r gwyliau, bydd galw cynyddol am logi beiciau. Ar hyn o bryd, y teimlad yw bod hyn yn ddiffygiol mewn sawl lle.

> "Mae'n bendant yn rhywbeth sydd ar goll"
> **Corff cyhoeddus**

Mae un awdurdod lleol yn dweud bod cwmnïau llogi beiciau masnachol wedi archwilio hyn ac nid ydynt yn argyhoeddedig bod yna ddigon o alw ar hyn o bryd er mwyn ei wneud yn hyfyw yn fasnachol. Mae'r awdurdod yn awr yn cynllunio i ddefnyddio arian o brosiect cysylltiedig er mwyn ariannu partner masnachol yn rhannol fel y gall darparwyr masnachol weld bod yna fàs critigol o ran galw.

Mae e-feiciau yn ffordd wych o ddenu pobl i feicio. Maent yn helpu i oresgyn bryniau (sy'n rhwystr i nifer sy'n llai ffit /awyddus) ac maent yn cadw beicwyr hŷn i fynd ymhellach i henoed, er nad ydynt yn ddatrysiad llwyr os nad oes gan y sawl sy'n reidio beic unrhyw sgiliau o ran sut i'w ddefnyddio.

> "Roeddem wedi'n cyfyngu rhyw ychydig, ychydig flynyddoedd yn ôl o safbwynt pa mor bell allai'r beiciau fyd, ond nawr mae gennym ni deithiau ar gyfer e-feiciau yn unig, ac maent yn cyfrif am 50% o'n teithiau hamdden"
> **Trefnydd teithiau**

> "Rwy'n credu dyma lle mae'r diwydiant yn mynd. Un o'r rhwystrau pennaf i gael pobl i ddechrau beicio yw'r ymdrech mae'n ei gymryd, yn arbennig felly mewn ardaloedd bryniog."
> **Elusen**

> "Hoffem ddweud wrth bobl, 'jest neidiwch ar gefn e-feic ac mi allwch chi feicio yn unrhyw le' oherwydd mae Cymru'n eithaf bryniog ac rydych chi dal angen sgiliau trin beic, yn arbennig wrth ddod i lawr."
> **Trefnydd digwyddiadau**

> "Mae'n agor Cymru i fyny i'r beiciwr mwy hamddenol. Wnaethon ni ddim ystyried Cymru ar gyfer beicio nes i e-feiciau gyrraedd."
> **Trefnydd teithiau**

Fodd bynnag, mae e-feiciau'n ddrud ac mae'r gost yn rhwystro beicwyr rhag eu prynu. Mae yna farchnad sy'n tyfu ar gyfer llogi e-feiciau ond mae'n bosib bod cyflenwyr hefyd yn wynebu cymhlethdodau gyda chost ac yswiriant.

> "Mae darparwyr yn dechrau mynd yn nerfus ynghylch cwrdd â chostau yswiriant a chynnal a chadw ar gyfer e-feiciau"
> **Corff cyhoeddus**

### Mannau gwefru e-feic

Yn dilyn ymlaen o'r uchod, mae'r galw cynyddol am e-feiciau yn golygu bod angen mannau gwefru. Maent yn risg tân dan do ac felly mae angen i fannau gwefru fod y tu allan.

## Rhwystrau rhag datblygiad

### Mynediad at dir ar gyfer llwybrau newydd

Os oes llwybrau beiciau yn cael eu datblygu yng Nghymru, mae un rhanddeiliad yn tynnu sylw at y ffaith fod hyn yn fwy anodd ar hyn o bryd na phan wnaeth y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ddechrau. Roedd cael mynediad at dir yn rhwyddach bryd hynny oherwydd roedd symbyliadau ariannol ar gael ar gyfer rhai oedd yn datblygu llwybrau er mwyn eu cynnig i berchnogion tir yn gyfnewid am ganiatáu mynediad at eu tir. Byddai angen cefnogaeth debyg eto.

> "Perchnogaeth tir a chael mynediad at dir yw'r sefyllfa fwyaf anodd sy'n bod. Ar gyfer unrhyw lwybrau newydd, does yna ddim yn un lefel o ariannu ar gael ar gyfer caffael tir. Byddai rhyw fath o gronfa dir gan Lywodraeth Cymru neu ffynhonnell ganolog yn ddefnyddiol. Heb fod yn gallu cynnig rhyw fath o symbyliad i berchnogion tir yn gyfnewid am unrhyw newidiadau maent yn ei wneud ar gyfer mynediad, mae'n anodd iawn symud y cynlluniau newydd ar gyfer llwybr newydd yn eu blaenau."
> **Elusen**

> "Mae yna tua milltir a hanner [o dir] rydym yn cael trafferth sicrhau caniatâd ar ei gyfer. Mae'n sefyllfa sy'n parhau ac mae'n eithriadol o araf. Byddai'n gwneud taith gylchol wych sy'n gwneud defnydd o ddau o'r llwybrau rydym eisoes wedi eu sefydlu."
> **Trefnydd teithiau**

Ar nodyn tebyg, mae perchnogion tir weithiau yn codi rhwystrau mynediad a gall hyn gyfyngu ar feicwyr gydag anghenion mynediad.

> "Mae llawer o dwristiaid o dramor yn cwyno am rannau o'r rhwydwaith pan maent yn dod wyneb yn wyneb gyda rheolwyr mynediad nad ydynt wedi arfer â nhw mewn rhwydweithiau Ewropeaidd. Gallai'r rhain fod yn rheolwyr llwybr

ceffylau neu fframiau sy'n culhau ar y brig fel na allwch chi gael cyrn beic drwyddo, er mwyn rhwystro beiciau modur. Gydag unrhyw feic mwy megis tandem, allwch chi ddim mynd â'r rheiny drwyddo."
**Elusen**

## Mynediad at lwybrau a defnydd cyfyngedig o ffyrdd ar gyfer digwyddiadau

Mae cynllunio digwyddiad beicio yn gymhleth oherwydd mae trefnwyr yn gorfod cynllunio'r llwybr yn ofalus iawn. Maent angen mynediad wedi'i warantu os yw'r llwybr yn mynd oddi ar y ffordd ac nid yw'r rhain bob amser yn cael eu gwarantu. Y teimlad yw y gallai awdurdodau cyhoeddus helpu yma.

> "Mae tirfeddianwyr yn anodd iawn delio â hwy. Mae'n anodd cael caniatâd i ddefnyddio tir ar gyfer digwyddiad."
> **Trefnydd digwyddiadau**

Mae trefnwyr hefyd angen mynediad cyfyngedig i rai ffyrdd neu rannau o ffyrdd, sy'n golygu eu bod angen eu cau neu eu cyfyngu i draffig. Mae un trefnydd yn dweud ein bod yn ymwybodol y gall hyn fod yn rhwystredig i breswylwyr lleol ac felly eu bod yn teimlo ei fod yn bwysig bod gwerth cynnal digwyddiadau beicio yn cael ei hyrwyddo i'r gymuned leol er mwyn tawelu unrhyw feddyliau negyddol.

> "Dyw pobl ddim eisiau cael eu dal y tu ôl i 1,000 o feicwyr ... byddai'n helpu i gael cefnogaeth gan Croeso Cymru ac awdurdodau lleol er mwyn rhannu'r neges ynghylch pa mor bwysig yw'r digwyddiadau i ogledd Cymru a'r economi leol"
> **Trefnydd digwyddiadau**

> "Mae ymgynghori [ynghylch digwyddiadau] gyda'r gymuned leol yn allweddol, yn arbennig felly yn yr ardaloedd mwyaf poblogaidd."
> **Corff cyhoeddus**

## Mae ffocws ar ardaloedd dinesig ar gyfer Teithio Llesol yn gallu amharu ar ddatblygu llwybrau mewn ardaloedd gwledig.

Mae grantiau Teithio Llesol wedi bod yn dda ar gyfer twristiaeth beicio mewn sawl ffordd oherwydd gall cynnyrch beicio sydd wedi'i roi yn ei le'n bennaf ar gyfer preswylwyr lleol a chymudwyr hefyd gael ei ddefnyddio gan dwristiaid. Fodd bynnag, mae'r ffocws ar ddatblygu cynnyrch beicio mewn ardaloedd dinesig ar gyfer pobl leol yn golygu y gall fod yn anoddach i'r ardaloedd gwledig mwy pellennig gael mynediad at grantiau.

> "Mae ardaloedd dinesig wedi cael budd o rwydweithiau wedi gwella ond yn sicr mae angen cydbwyso ariannu tuag at ardaloedd gwledig, a all fod yn ddeniadol iawn i dwristiaid. Mae rhwydwaith gwledig sy'n gryf iawn o

safbwynt twristiaeth ond nid cymaint o safbwynt gael ei ddefnyddio yn llai abl i sicrhau cyllid oherwydd y dull sgorio [wrth asesu ceisiadau].”
**Elusen**

## Costau cynyddol digwyddiadau ac arian cyfyngedig i'w hyrwyddo

Mae rhai digwyddiadau beicio yn cael eu trefnu gan gwmnïau bach. Maen nhw'n delio gyda chost gynyddol eu trefnu a'r lleihad mewn cyfleoedd i noddi. Mae angen hyrwyddo digwyddiadau os ydynt am dyfu, ac fel arfer, does gan gwmnïau bach ddim y gyllideb i wneud hyn cystal â'r hyn y byddent yn ei ddymuno. Mae rhai trefnwyr teithiau bach mewn sefyllfa debyg.

> “Mae cost llogi gwasanaethau rheoli traffig, cau ffyrdd, rhwystrau, bwyd. Mae o i gyd yn mynd i fyny.”
> **Trefnydd digwyddiadau**

> “Mae llawer o fusnesau bach yn dechrau a gan nad oes ganddyn nhw gefnogaeth marchnata, dydyn nhw ddim yn mynd yn bell iawn”
> **Trefnydd teithiau**

> “Mae rhai o'r cwmnïau digwyddiadau mwy wedi dod i ben. Mae unrhyw ddigwyddiad sydd wedi dibynnu'n benodol ar ariannu a nawdd yn cael amser caled”
> **Trefnydd digwyddiadau**

Gall ymdrechion i gynyddu diddordeb ar draws gwahanol grwpiau o ran gallu arwain at gostau pellach ar gyfer digwyddiadau. Mae hyn oherwydd bod trefnwyr, yn ddelfrydol, angen bod yn gallu cynnig gwahanol lwybrau sy'n addas ar gyfer gwahanol allu, ond gall hyn ychwanegu at y gost.

> “Rydym yn cael rhai beicwyr yn cwyno ei fod yn rhy anodd. Rydym wedi gwneud y digwyddiadau ychydig yn haws ac wedyn rydych chi'n cael cwynion ei fod wedi bod yn rhy hawdd. Mae cael cydbwysedd cywir yn anodd.”
> **Trefnydd digwyddiadau**

## Beicio Cymru ddim yn gallu cadarnhau digwyddiadau

Mae un trefnydd digwyddiadau yn dweud nad yw Beicio Cymru (Welsh Cycling gynt) a British Cycling ddim yn gallu cadarnhau digwyddiadau beicio yng Nghymru ac felly eu bod yn gorfod gwneud cais i Lywodraeth Cymru i gael eu cymeradwyo. Maent yn teimlo bod y broses yn cymryd gormod o amser i gwmni bach.

> “Dyw Welsh Cycling [sic] ddim yn gallu cadarnhau'r digwyddiadau rydym yn eu cynnal felly mae'n rhaid i ni fynd drwy drydydd parti”
> **Trefnydd digwyddiadau**

# 5. Beicio mynydd: y sefyllfa bresennol

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn seiliedig ar gyfweliadau ansoddol a data atodol a ddarparwyd gan rhai o'r rhanddeiliaid. Mae dyfyniadau'n cael eu priodoli i'r math o randdeiliad. Mae sylwebaeth ddeongliadol yn seiliedig ar farn gyffredinol rhanddeiliaid sy'n berthnasol i'r is-adran honno, oni bai y nodir yn wahanol.

## Ansawdd y cynnyrch cyfredol yng Nghymru

### Tirwedd naturiol ddelfrydol

Credir bod gan Gymru'r dirwedd naturiol ddelfrydol ar gyfer beicio mynydd. Mae'n fryniog, yn amrywiol a'r rhan helaeth ohoni'n wledig. Mae yna barciau beic niferus ac mae lle i fwy pe bai'r cynnig o ran cynnyrch yn cael ei ehangu.

> "Mae Cymru yn berffaith ar gyfer parciau beic oherwydd y tirweddau naturiol a'r cysylltiadau da [gyda Lloegr]. Mae gennym lwybrau gwych."
> **Parciau beic**

### Cyfleusterau mewn parciau beic

Mae parciau beic yn dueddol o fod yn addas iawn ar gyfer defnyddwyr ac mae cyfleusterau mewn rhai parciau'n cynnwys man golchi beic, cawodydd, gorsafoedd offer a chaffi. Mae un trefnydd yn crybwyll nad yw caffis ar y safle wastad yn broffidiol oherwydd costau cyflogaeth cynyddol.

### Mae gan rai lletyau ddarpariaeth dda ar gyfer beicwyr mynydd

Mewn rhai ardaloedd agos at barciau beic megis mewn rhannau o ganolbarth a de-orllewin Cymru, mae trefnwyr llety yn cau i'r parciau hynny sydd wedi dysgu sut orau i ddarparu ar gyfer beicwyr mynydd. Un elfen o hyn yw peidio â bod yn rhy ffyslyd ynghylch cael mwd yn dod i mewn i'r llety.

> "Mae rhai darparwyr llety yn caniatáu i westeion gadw beiciau yn eu hystafelloedd oherwydd eu bod yn deall gwerth y beiciau"
> **Corff cyhoeddus**

> "Mae angen i'r lletyau beidio â phoeni cymaint â hynny am ganiatáu i ychydig o fwd ddod i mewn"
> **Parciau beic**

# Gwendid y cynnyrch cyfredol yng Nghymru

## Cyfleusterau sy’n ddiffygiol mewn rhai meysydd

I ffwrdd o’r parciau beic craidd yng Nghymru, mae yna ardaloedd eraill sydd â llwybrau beicio mynydd ond nad oes ganddynt o reidrwydd beth o’r cyfleusterau atodol megis toiledau a chaffis.


## Llety addas yng ngogledd Cymru

Mae un trefnydd teithiau beiciau mynydd yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i ddigon o letyau addas yng ngogledd Cymru. Maent yn teimlo bod prinder lletyau sy’n gallu darparu ar gyfer grwpiau mwy a darparu cyfleusterau ar gyfer storio a golchi beiciau.

> “Mae’n anodd i’r llety gymryd y niferoedd sydd gennym ni. Mae’n rhaid i ni ei gyfyngu i 8 o bobl yn unig. Fel arfer rydym yn defnyddio hostel annibynnol hyfryd yn Nolgellau. Mae’n gallu derbyn ychydig mwy na 8 ond dim ond 6 beic sy’n bosib iddynt eu storio ... dydyn ni ddim eisiau gorfod gwasgaru pobl mewn gwahanol lefydd. Rydyn ni’n hoffi eu cadw nhw i gyd gyda’i gilydd.”
> **Trefnydd teithiau**

# Y galw ar hyn o bryd / marchnadoedd

**Ffigwr 1: Cyfanswm y reidiau beic bob blwyddyn ar lwybrau beicio mynydd Cyfoeth Naturiol Cymru**





*Ffynhonnell: data cyfrif gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Daeth casglu data i ben wedi 2022 oherwydd toriadau yn y gyllideb.*

Fe wnaeth reidiau ar lwybrau beicio mynydd Cyfoeth Naturiol Cymru gyrraedd uchafbwynt o ychydig dros 300,000 yn 2014. Dilynwyd hyn gan ostyngiad mewn niferoedd dros chwe

blynedd, cynnydd sydyn wedi i gyfyngiadau COVID-19 godi, ac yna gostyngiad pellach yn 2022.

Mae'r gostyngiadau mawr mewn niferoedd rhwng 2014 a 2022 yn bennaf wedi digwydd yn nau o'r tri safle mwyaf poblogaidd: Coedwig Afan (i lawr o bron i 50% o 115,717 o reidiau yn 2014 i 62,578 yn 2022) a Chwmcarn (i lawr o tua 40% o 60,295 i 36,866), gweler y siart isod. Tybir bod y prif resymau dros y gostyngiad yn cynnwys cau ffyrdd oherwydd torri coed, cystadleuaeth fasnachol a'r twf sylweddol mewn llwybrau anawdurdodedig. Mewn cyferbyniad, mae niferoedd yr ymwelwyr i Goed y Brenin yn 2022 wedi aros yr un fath, fwy neu lai, ag yr oeddent yn 2014.

**Ffigwr 2: Cyfanswm y reidiau beics bob blwyddyn ar 3 o lwybrau beicio mynydd mwyaf poblogaidd Cyfoeth Naturiol Cymru**




*Ffynhonnell: data cyfrif gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Daeth casglu data i ben wedi 2022 oherwydd toriadau mewn cyllid.*

## Dynion a bechgyn yn bennaf

Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr parciau beic mynydd yng Nghymru yn wrywod: mae un trefnydd yn amcangyfrif bod hyn yn 80%. Mae dynion a bechgyn naill ai'n dod mewn grwpiau a bod yr oedrannau'n amrywio o fechgyn ifanc yn eu harddegau i ddynion yn eu 50au, neu maent yn dadau sy'n dod gyda'u meibion yn eu harddegau.

Dywedodd un trefnydd eu bod yn gweld rhai mamau a'u merched, ond mae tadau a'u meibion yn llawer mwy cyffredin. Mae eraill yn dweud eu bod yn ceisio denu mwy o fenywod. Ar hyn o bryd, mae'r menywod sy'n ymweld yn dueddol o fod yn feicwyr profiadol.

> "Mae gennym ni ddigon o ferched a phlant yn beicio, ond maen nhw'n rhai profiadol. Mae'r ieuengaf tua 9 i 10 oed."
> **Parciau beic**

> "Mae annog mwy o fenywod i mewn i'r gamp yn hynod o bwysig i ni ac mae gennym ein mentrau ein hunain megis grwpiau cymunedol menywod, reidiau

a digwyddiadau cymdeithasol sy'n benodol ar gyfer menywod ... mae'n waith caled ond rydyn ni'n teimlo ein bod ni'n gwneud yr hyn allwn ni."
**Parciau beic**

## Anghenion hygyrchedd

Mae un trefnydd yn dweud eu bod yn cynnig certiau symudedd ar gyfer cludo beicwyr gyda symudedd cyfyngedig i ben y llwybrau.

## Nifer o ymwelwyr dros nos

Mae tua 40% o ymwelwyr i Barc Beic Dyfi yn aros dros nos, ac mae tua 55% o ymwelwyr i BikePark Wales yn aros am ddwy neu fwy o nosweithiau. Mae beicwyr mynydd yn dod i Gymru o bob rhan o'r DU.

Mae ymwelwyr dros nos yn aros mewn amrywiaeth o letyau. Mae rhai'n cael eu disgrifio fel pobl eithaf 'gwydn' ac sy'n cysgu yn eu fan gwersylla eu hunain neu gerbydau eraill.

"Maen nhw'n boblogaeth eithaf gwydn"
**Parciau beic**

Mae eraill yn chwilio am frandiau cyfarwydd o letyau â gwasanaeth, sydd weithiau'n golygu bod Cymru ar ei cholled o ran y rhai sy'n gwario i aros dros nos, pan mae beicwyr yn dewis aros ychydig dros y ffin yn Lloegr. Mae gan rai parciau beic gysylltiadau gyda lletyau lleol ar eu gwefan.

## Mae modd cyrraedd capasiti ar y penwythnos, ond nid yn ystod yr wythnos

Mae'r galw am feicio mynydd yng Nghymru yn cyrraedd uchafbwynt yn sydyn ar benwythnosau, ac i ryw raddau, yn y dyddiau bob ochr iddynt (ar gyfer teithiau dros y penwythnos). Mae trefnwyr a lletyau lleol sy'n dibynnu ar y busnes yn wynebu her o ran denu cwsmeriaid o ddydd Mawrth i ddydd Iau.

"Mae beicio mynydd yn gamp ar benwythnos. Mae busnesau'n cau ar ddydd Mawrth oherwydd maen nhw'n gwybod nad ydyn nhw'n mynd i weld unrhyw feicwyr mynydd. Y broblem yw, o ble mae'r busnes ganol yr wythnos am ddod?"
**Corff cyhoeddus**

Mae rhai rhanddeiliaid yn dweud hyd yn oed gyda'r galw uwch ar benwythnos, nad yw capasiti'n broblem heblaw'r llefydd parcio ceir, sy'n gallu llenwi. Fel arall, mae coedwigoedd yn dueddol o beidio â theimlo'n rhy llawn, ac mae trefnwyr parciau'n gallu cynyddu eu capasiti drwy ddarparu llwybrau ychwanegol.

> "Mae coedwigoedd yn dda ar gyfer cymryd ymwelwyr"
> **Corff cyhoeddus**

> "Mae unrhyw broblemau o safbwynt capasiti wedi bod yn gysylltiedig gyda'r meysydd parcio ceir ond dyw hynny ddim yn broblem rhagor ers cyfnodau clo Covid"
> **Corff cyhoeddus**

## Y galw fesul tymor

Mae galw mawr am feicio mynydd Nghymru yn ystod y gwanwyn a'r hydref. Yn ystod y tymhorau distawach hyn i dwristiaeth, y rhai sy'n fwy profiadol gyda beicio mynydd sy'n dueddol o ddod, ac fel arfer, yn bennaf ar y penwythnosau.

> "Mae'r hydref yn dymor cryf iawn, ac felly hefyd y gwanwyn"
> **Parciau beic**

Mae beicwyr mynydd llai profiadol yn dueddol o ymweld yn y gwanwyn. Dyma hefyd pryd mae nifer o feicwyr profiadol yn gwneud taith flynyddol i Ewrop ar gyfer eu gweithgaredd, yn arbennig i'r Alpau.

Yn y gaeaf, mae parciau yn yr Alpau yn newid i groesawu sgiwyr, wrth i'r eira gyrraedd. Mae un trefnydd yn tynnu sylw at y ffaith bod hyn yn fantais allweddol sydd gan feicio mynydd yng Nghymru o'i gymharu gyda safleoedd mwy poblogaidd yn Ewrop: Nid yw Cymru'n cael llawer o eira ac felly gall y parciau barhau ar agor ar gyfer beicio mynydd ar hyd y flwyddyn.

> "Mae gan y DU dymor hirach na'r hyn sydd gan Ewrop gan fod parciau Ewropeaidd yn cystadlu gyda sgïo yn y gaeaf"
> **Parciau beic**

Os yw beicio mynydd yn gorfod dod i ben yng Nghymru yn ystod y gaeaf, bydd hynny fel arfer oherwydd gwyntoedd cryfion yn hytrach na glaw neu eira. Dyw hi ddim yn ddiogel bod mewn coedwig pan fydd gwyntoedd mawr.

## Gwahaniaethau rhwng parciau sy'n cael eu rhedeg yn fasnachol a rhai sy'n cael eu rhedeg yn gyhoeddus

Mae rhai rhanddeiliaid yn dweud bod parciau beic sy'n cael eu rhedeg yn fasnachol yng Nghymru yn 'gwneud yn dda', lle mae diffyg hyrwyddo o safbwynt y parciau sy'n cael eu rhedeg yn gyhoeddus. Mae yna gonsensws nad yw beicio mynydd yng Nghymru at ei gilydd wedi ei hyrwyddo'n dda ers peth amser, a hynny wedi i fuddsoddiad sylweddol gael ei wneud yn datblygu'r cynnyrch.

“Y tu allan i gwmnïau sy’n cael eu hariannu’n breifat fel ein un ni, mae yna ryw dri arall fel ni; mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu’n ôl.”
**Parciau beic**

# Teithiau beicio mynydd yng Nghymru

## Marchnadoedd craidd

Mae’r oedran o 45 i 65 yn farchnad allweddol ar gyfer teithiau beicio mynydd yng Nghymru oherwydd mae’r grŵp demograffig yma yn dueddol o fod â mwy o amser hamdden ac incwm i’w wario na grwpiau iau. Fodd bynnag, os oes taith yn arbennig o heriol o safbwynt gwytnwch yna mae’r oedran ar gyfartaledd yn dueddol o fod yn iau.

“Maen nhw [oedran grŵp 45 i 65] yn dueddol o fod ag ychydig mwy o arian i’w wario ac ychydig bach mwy o amser rhydd”
**Trefnydd teithiau**

## Y galw am Gymru

Mae yna alw uchel am deithiau beicio mynydd yng Nghymru yn ystod yr haf, ond am oddeutu chwe mis y flwyddyn yn ystod misoedd y gaeaf, mae’r galw’n isel iawn.

Ar y cyfan, mae’r galw’n tyfu ar gyfer Cymru.

“Mae pob taith eleni wedi bod yn llawn gyda rhestr aros”
**Trefnydd teithiau**

# 6. Beicio mynydd: datblygiadau eraill y dyfodol

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn seiliedig ar gyfweliadau ansoddol ac ymchwil i'r farchnad atodol. Mae dyfyniadau'n cael eu priodoli i'r math o randdeiliad. Mae sylwebaeth ddeongliadol yn seiliedig ar farn gyffredinol rhanddeiliaid sy'n berthnasol i'r is-adran honno, oni bai y nodir yn wahanol.

## Hyrwyddo, cyfleoedd a thargedu

### Mae angen ffordd o feddwl sy'n cysylltu pethau gyda'i gilydd ar gyfer Cymru

Mae beicio mynydd yng Nghymru angen mabwysiadu dull o farchnata sy'n gydlynol. Er gwaethaf llwyddiant rhai trefnwyr parciau beic masnachol, mae'r cynnyrch yng Nghymru yn ei gyfanrwydd angen ymdrech hyrwyddo ddwys.

> "Mae yna ddiffyg meddwl mewn ffordd sy'n cysylltu pethau â'i gilydd yng Nghymru. Ychydig iawn o fuddsoddiad cyhoeddus a welsom, mae'r cyfan bron wedi bod yn arian preifat."
> **Parciau beic**

> "Wedi teithio'r byd a gweld beicio mynydd mewn gwledydd eraill, mae gan Gymru beth o'r beicio mynydd gorau yn y byd, a byddai eraill yn cytuno gyda hynny. Ond dyw Cymru ddim yn siarad amdano ddigon."
> **Parciau beic**

> "Does yna ddim un lle canolog ar gyfer pawb sydd â diddordeb mewn beicio mynydd yng Nghymru. I ble maen nhw'n mynd? O ble maen nhw'n cael eu gwybodaeth?"
> **Parciau beic**

> "Ar ôl cyfnod roi pethau ar waith, aeth Mountain Bike Wales yn eithaf distaw. Mae'r wefan yn dal i fod yno, ond mae'r gweithgarwch y tu ôl iddi wedi bod yn eithaf gwael."
> **Elusen**

### Mae bob yn agos iawn at boblogaethau mawr yn Lloegr yn fantais allweddol

Mae llawer o drefnwyr yn edrych ar yr Alban fel cyrchfan sydd ag agwedd drefnus iawn tuag at feicio mynydd. Fodd bynnag, y brif fantais sydd gan Gymru dros yr Alban yw ei bod yn llawer haws i bobl yn Lloegr gyrraedd yma.

“Mae 95% o’n cwsmeriaid yn dod o Loegr. Y fantais anferthol sydd gennym dros yr Alban yw ein bod yn llawer iawn nes. Mae hi gymaint yn haws dod i Gymru na’r Alban.”
**Parciau beic**

“Mae gan Landegla yng ngogledd-ddwyrain Cymru oddeutu 19 miliwn o bobl yn byw o fewn dwy awr iddi. “Mae gan dde-ddwyrain Cymru hefyd ddalgylch o oddeutu 20 miliwn o bobl o fewn dwy awr.”
**Corff cyhoeddus**

## Mae e-feiciau yn cynnig cyfleoedd sylweddol

Mae’r farchnad ar gyfer e-feiciau o fewn beicio mynydd yn tyfu’n sydyn. Mae yna fudd sylweddol ar gyfer trefnwyr parciau oherwydd gall beicwyr gyrraedd i ben y bryn yn ôl gydag e-feic. Ar hyn o bryd mae angen swm sylweddol o adnoddau a buddsoddiad er mwyn cludo beicwyr i ben y bryn mewn cerbydau neu lifftiau.

“Mae oddeutu 20% o’n cwsmeriaid yn defnyddio e-feiciau, o’u cymharu gyda 5% dair blynedd yn ôl ... rhan fawr o’n busnes [adnoddau] yw dod â phobl yn ôl i ben y llwybr. Gallant wneud hynny eu hunain os oes ganddynt e-feic.”
**Parciau beic**

## Marchnadoedd newydd

Mae yna gyfle i ddenu mwy o deuluoedd gyda llai o brofiad beicio mynydd. Dylai hyrwyddo gynnwys mwy o fenywod er mwyn dangos nad yw’r gweithgaredd ar gyfer dynion yn unig.

“Y cynllun ehangach yw ymestyn y rhwydwaith fel y gallwn ddarparu ar gyfer teuluoedd”
**Parciau beic**

“Dylai fod y marchnata’n defnyddio cymaint â phosib o fenywod o ran delweddau er mwyn dangos mai nid dim ond rhywbeth ar gyfer dynion sydd yma.”
**Parciau beic**

Hoffai un trefnydd weld mwy o ymwelwyr o Ewrop, gan fod y farchnad hon wedi gostwng ers pandemig COVID-19 a Brecsit. Prif fantais sydd gan Gymru dros gyrchfannau Ewropeaidd fel y crybwyllwyd yw nad yw Cymru’n cystadlu gyda sgïo fel y mae parciau Alpaidd poblogaidd yn ei wneud pan mae eu heira nhw’n cyrraedd.

“Mae’r ffaith nad oes yna eira yn y gaeaf yn fantais enfawr”
**Parciau beic**

### Mae ymweliadau ar draws sawl diwrnod yn llenwi capasiti yn ystod yr wythnos

Fel y crybwyllwyd, mae dyddiau'r wythnos yn anodd i drefnwyr eu llenwi gan fod y galw ar gyfer parciau beiciau mynydd yn cyrraedd uchafbwynt ar y penwythnos. Byddai un trefnydd yn hoffi gweld teithiau hirach i Gymru'n cael eu hyrwyddo er mwyn llenwi peth o'r capasiti yn ystod yr wythnos.

> "Lle y dylem fod yn ennill yw cael pobl yn dod i Gymru am wythnos gyfan o wyliau"
> **Parciau beic**

## Cynnyrch newydd yn cael ei gynllunio

### Ehangu BikePark Wales a chael parc beic newydd yn ne-orllewin Cymru

Mae caniatâd cynllunio wedi ei roi er mwyn ymestyn BikePark Wales. Bydd hyn yn golygu creu llwybrau newydd ar draws pob lefel o allu, a bydd llety hefyd yn cael ei ychwanegu i'r safle. Mae yna hefyd ddatblygiad masnachol ar droed ar waith ar gyfer parc beiciau newydd yn ne-orllewin Cymru.

### Datblygiadau parc pellach

Mae yna drefnwyr parciau masnachol eraill sydd â chynlluniau posib i ehangu eu capasiti pe bai'r galw'n cynyddu'n ddigonol. Gall capasiti gael ei gynyddu drwy ehangu i dir cyfagos neu drwy wneud trosglwyddiadau i ben y bryniau'n fwy effeithiol, e.e. drwy fuddsoddi mewn lifftiau tebyg i lifftiau sgïo.

> "Mae gennym ychydig bach o le i symud cyn y bydd yn rhaid buddsoddi mewn lifft steil sgïo. Mae lifft yn caniatáu gwasgariad mwy eang ar draws y bryn a thrafnidiaeth fwy effeithiol i fyny iddo. Mae'n ddyddiau cynnar o safbwynt cost o'i gymharu â dichonolrdeb."
> **Parciau beic**

## Mae angen datblygu cynnyrch a rhoi sylw i'r rhwystrau

### Diffyg cydnabyddiaeth bod yr economi leol yn cael budd, nid dim ond y parciau

Un o'r problemau gyda'r penderfyniadau a wnaed ynghylch hyfywedd parc beiciau yw bod y ffocws ddim ond ar fudd o safbwynt cost rhedeg y parc, ond diffyg dealltwriaeth o'r buddion i'r economi leol.

> "Mae'r economïau lleol o amgylch Cwmcarn, Coed y Brenin ac Afan yn elwa'n sylweddol o'r canolfannau hynny, ond nid yw'n dangos ar broffidioldeb llinell waelodol y ganolfan"
> **Corff cyhoeddus**

## Cyfoeth Naturiol Cymru yn dod â data cyfrif i ben

Dyw Cyfoeth Naturiol Cymru ddim bellach yn ariannu cyfrif data oedd yn arfer cael ei ddefnyddio i fesur nifer y reidiau hyd at 2022. Roedd un awdurdod lleol yn arfer dibynnu ar y data hwnnw er mwyn gwneud achosion busnes ar gyfer ariannu Codi'r Gwastad.

## Mynediad i dir

Mae cael mynediad at dir ar gyfer beicio mynydd yn achosi rhwystr o ran ehangu'r cynnyrch yng Nghymru. Gall caniatâd cynllunio fod yn anodd i'w gael, a gall mynediad at dir perchennog ar gyfer beicio mynydd hefyd fod yn broblem. Mae un trefnydd teithiau yn dweud bod rhagfarn tuag at feicio mynydd a beicio yn gyffredinol gan fod rhai perchnogion tir yn credu y bydd y beiciau'n gwneud niwed i'r tir.

> "Mae yna rai llwybrau gwych yng ngogledd Cymru sydd ar y llwybr Traws Eryri sy'n mynd drwy rhai ardaloedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac ystadau preifat a rhai'r goron ac maent ar gael i gerddwyr ond nid beicwyr ... Mae'r cyfan o'r olion ar Ben y Fan wedi ei wneud drwy gerdded. Y realiti yw bod beicio mynydd yn fwy tebygol o fod yn rhywun 60 oed yn beicio ar 5mya, nid rhywun sy'n neidio dros ryw fwlch."
> **Trefnydd teithiau**

> "Mae'n rhaid i Gyfoeth Naturiol Cymru fynd drwy rwystrau cynllunio ar gyfer safle arall, pellach. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwneud cais cynllunio ond mae faint o dir sy'n cael ei ofyn amdano yn eithaf sylweddol ac felly mae oedi ar hyn o bryd gan fod y tir yn eithaf gwerthfawr."
> **Corff cyhoeddus**

## Llwybrau pwmp

Mae rhai'n dweud bod llwybrau pwmp yn dod yn gynyddol boblogaidd. Maent yn gymharol rad i'w hadeiladu ac maen nhw'n ffordd dda o gael plant a defnyddwyr newydd i gymryd rhan mewn beicio mynydd.

> “Mae cynyddu’r nifer o lwybrau pwmp yn gyfle anferthol. Maen nhw’n rhad i’w codi, yn wych ar gyfer plant a phobl sy’n fwy newydd i’r gamp ... Mae yna sôn yn yr Alban am gael un ym mhob awdurdod lleol.”
> **Parciau beic**

> “Traciau pwmp yw meysydd chwarae’r dyfodol. Rwy’n meddwl i’n un ni gostio tua £80/£90k. Mae’n swnio’n llawer o arian ond mae’n rhatach na maes chwarae i blant.”
> **Corff cyhoeddus**

## Llogi beiciau ar gyfer dechreuwyr

Os yw hyrwyddo beicio mynydd yng Nghymru yn mynd i dargedu cynulleidfa ehangach, mae angen mwy o lefydd llogi beiciau ar gyfer dechreuwyr. Dyw pob parc beic ddim yn cynnig hyn ar hyn o bryd.

## Byddai mwy o barciau beic yn cael eu defnyddio

Mae un trefnydd yn teimlo pe bai mwy o barciau beic yn cael eu datblygu yng Nghymru, y byddent yn cael eu defnyddio oherwydd bod llawer o feicwyr yn hoffi rhoi cynnig ar un parc ar ôl y llall. Byddai hefyd yn lliniaru peth o’r problemau capasiti ar benwythnosau mewn rhai parciau poblogaidd presennol.

> “Mae pobl yn treulio nifer o ddyddiau’n reidio mewn mwy nag un safle. Nid yw’r ddau ddiwrnod yna o reidrwydd yn mynd i fod gyda ni. Byddant yn beicio yn rhywle arall.”
> **Parciau beic**

## Cyngor ar yswiriant

Mae rhai rhanddeiliaid yn bryderus iawn ynghylch peryglon beicio mynydd. Mae’n weithgaredd sydd â pheryglon posib a dyw hi ddim wastad yn eglur â phwy mae’r cyfrifoldeb cyfreithiol.  Mae hyn hefyd yn effeithio ar y gallu i gael yswiriant fforddiadwy. Mae un trefnydd yn dweud y byddai’n gwerthfawrogi cael cyngor cyfreithiol ar hyn.


> “Mae ymgyfreithiad o wrthdrawiadau sy’n digwydd ar ein llwybrau yn dod yn rhan o’n bywyd bob dydd fwy a mwy. Mae gennym ni ychydig o achosion byw sy’n cael eu trafod gyda chyfreithwyr a does yna ddim unrhyw gyfraith achos i’w dilyn er mwyn gweld sut fydd y pethau yma’n cael eu datrys ... gallai’r gamp ddiflannu’n llythrennol oherwydd fydd neb yn gallu cael yswiriant ... Byddai’n beth da cael ychydig o arweiniad gan y bobl sy’n gwneud y cyfreithiau.”
> **Parciau beic**

# 7. Canfyddiadau meintiol: darparwyr llety

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn seiliedig ar gyfweliadau meintiol gyda darparwyr llety. Mae dyfyniadau'n cael eu priodoli i'r math o ddarparwr fesul sector a rhanbarth o Gymru.

## Amlder derbyn beicwyr

**Ffigwr 3: C2 "Pa mor aml ydych chi'n derbyn ymwelwyr sy'n beicio pan maen nhw'n aros yn yr ardal?"**




## Perthnasedd twristiaeth beicio

Mae tri o bob pump (60%) o fusnesau'n dweud eu bod yn derbyn gwesteion sy'n beicio 'yn aml' neu 'weithiau'. Roedd ychydig o'r busnesau y cysylltwyd â hwy (13) yn gwrthod cymryd rhan yn yr arolwg ar sail y ffaith nad oedden nhw'n teimlo bod twristiaeth beicio yn berthnasol iddynt. Os yw'r rhain yn cael eu cymryd i ystyriaeth o ran y canlyniadau uchod, gallwn barhau i ddod i'r casgliad bod dros hanner (57%) o fusnesau llety yng Nghymru yn derbyn gwesteion 'yn aml' neu 'weithiau' sy'n beicio, gan fod y sampl yn cynrychioli'r diwydiant yn fras fesul sector a rhanbarth.

> "Mae'n ardal wych ar gyfer beicio. Mae gennym ni grŵp anferth o feicwyr sy'n galw heibio bob dydd Iau."
> **Llety â Gwasanaeth, De-ddwyrain**

Mae dau o bob pump (38%) o ymatebwyr yr arolwg yn dweud eu bod yn derbyn gwesteion sy'n beicio 'yn anaml iawn' neu nad ydynt 'byth' yn gwneud hynny. Fodd bynnag, dyw hyn ddim yn golygu nad oes ganddyn nhw unrhyw ddiddordeb yn natblygiad twristiaeth beicio, fel y trafodir mewn cwestiynau yn nes ymlaen. Mae rhai'n gwneud sylw y byddent yn derbyn mwyn o westeion sy'n beicio pe na bai hi am gynnyrch yn cau i lawr.

> "Mae Bwlch Nant yr Arian, sy'n eiddo i Gyfoeth Naturiol Cymru, yn cau. Mae gen i bopeth mae beicwyr ei angen ond dydw i ddim yn cael unrhyw fusnes

ganddyn nhw. Ond pam felly fyddai beicwyr eisiau dod yma pan mae'r holl lwybrau'n cau?"
**Llety â Gwasanaeth, Canolbarth**

## Dim gwahaniaeth rhwng busnesau sydd wedi neu heb eu hachredu dan y cynllun Croeso i Feicwyr


Yn ddiddorol iawn, mae'r atebion i C2 pan maent yn cael eu rhannu gyda busnesau achrededig Croeso i Feicwyr a rhai sydd heb eu hachredu, bron yn union yr un fath. Mae hyn yn cael ei drafod ymhellach o dan C9.

## Gwahaniaethau fesul rhanbarth a sector


Fesul sector, mae'r cyfrannau sy'n ateb 'yn aml' yn uwch ymysg llety â gwasanaeth (34%) a meysydd carafanau a gwersylla (34%).

Fesul rhanbarth, mae'r cyfrannau sy'n ateb 'yn aml' yn uwch yn ne-ddwyrain Cymru (44%) a gogledd Cymru (35%).

**Ffigwr 4: C2 "Pa mor aml ydych chi'n derbyn gwesteion sy'n beicio pan maent yn aros yn yr ardal?" (dangosir canlyniadau fesul sector)**



**Ffigwr 5: C2 “Pa mor aml ydych chi’n derbyn gwesteion sy’n beicio pan maent yn aros yn yr ardal?” (dangosir canlyniadau fesul rhanbarth)**




Mae llawer o’r amrywiaeth o ran atebion yn dibynnu ar union leoliad y busnes a pha mor agos yw i:

- Brif lwybrau beicio a/neu ffyrdd diogel
- Parciau beic
- Digwyddiadau beicio neu driathlon mawr
- Bryniau (gan fod llawer yn dweud bod hyn yn gwneud eu lleoliad yn anaddas)
- Atyniadau mawr eraill ar gyfer ymwelwyr megis traethau (sy’n gallu golygu bod y llety’n cael ei lenwi gan fathau eraill o ymwelwyr ar wyliau)

> “Mae Coed y Brenin yn agos, sy’n gyfleuster rhagorol ar gyfer beicwyr, ac mae o yn anffodus dan fygythiad [o gael ei gau]. Wedyn mae yna lwybr 23 a chanolfan feicio sydd hefyd yn agos atom ni. Mae gennym lawer o deuluoedd sy’n cyrraedd gyda'u beiciau ar eu ceir gan fod cymaint ar eu cyfer o amgylch y ffordd yma.”
> **Llety Hunanddarpar, Gogledd**

> “Y prif atyniad yw’r digwyddiad: y Dragon Ride”
> **Llety â Gwasanaeth, De-ddwyrain**


> “Mae gennym feicwyr bob diwrnod ar gyfer llwybr Taf a rhai sy’n beicio i’r Bae neu i fyny i Gaerffili”
> **Maes carafanau, Gogledd-ddwyrain**

> “Rydym ar ben allt serth iawn, felly dim ond beicwyr cryf sy’n aros”
> **Llety Hunanddarpar, Canolbarth**

> “Rydym ar y llwybr beicio o Land’s End i John O’Groats”
> **Llety â Gwasanaeth, De-ddwyrain**

## Math o daith beicio

**Ffigwr 6: C3 “Ydych chi’n derbyn mwy o westeion sydd ar dripiau beicio penodol, nei fwy sy’n beicio pan maent yn ymweld â’r ardal ond nad dyna yw prif ffocws eu taith?”**




*Cafodd C3 ei ofyn i fusnesau a oedd yn derbyn gwesteion sy’n beicio yn aml neu weithiau (C2)*

## Mae teithiau beicio penodedig yn fwy cyffredin

Mae yna nifer o deithiau beicio penodedig sy’n cael eu cynnal yng Nghymru. Mae rhai ymwelwyr hefyd yn dod am brif reswm gwahanol ac mae beicio yn rhan o’u taith, ond mae hyn yn llai cyffredin.

Mae’r gyfran sy’n ateb ‘mwy o deithiau beicio penodedig’ uchaf ymysg:

- Busnesau yn ne-ddwyrain Cymru (75%)
- Busnesau achrededig Croeso i Feicwyr (72%)
- Llety â gwasanaeth (67%)

> “Rydym ar y llwybr Tour de Wales lle mae pobl yn beicio ar hyd y prom ac o amgylch Y Gogarth. Roedd gennym ni Mark Cavendish un flwyddyn. Mae Llandudno yn bendant yn dod yn adnabyddus i feicwyr.”
> **Llety â Gwasanaeth, Gogledd**


> “Llwybrau gwych. Rydym yn llogi beiciau i bobl.”
> **Maes carafanau, Gogledd**

> “Yn gyffredinol, mae pobl yn cludo eu beiciau 30 munud yn y car er mwyn beicio o amgylch Tyddewi.”
> **Llety â Gwasanaeth, De-orllewin**

> “Maen nhw’n mynd i BikePark Wales yn bennaf”
> **Llety â Gwasanaeth, De-ddwyrain**

## Misoedd ar gyfer derbyn gwesteion beicio

**Ffigwr 7: C4 "Ym mha fisoedd o'r flwyddyn ydych chi fel arfer yn derbyn gwesteion sy'n beicio yn yr ardal?"**




*Cafodd C4 ei ofyn i fusnesau a oedd yn derbyn gwesteion sy'n beicio yn aml neu weithiau (C2)*

### Presenoldeb cryf drwy gydol y flwyddyn


Un o ganfyddiadau pwysicaf y gwaith ymchwil hwn yw bod beicio'n cynnig cyfle da i ddenu gwesteion yn ystod y tymhorau mwy distaw. Mae mynd i'r afael gyda phroblem natur dymhorol twristiaeth yn un o nodau allweddol Croeso Cymru, fel yr amlinellir yn Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020 i 2025. Mae rhai busnesau hefyd yn dynodi eu bod yn awyddus i dderbyn beicwyr y tu hwnt i brif dymor yr haf, pan mae ganddynt nifer o breswylwyr beth bynnag.

> "Mae beicwyr yn dueddol o aros am un noson gan eu bod yn pasio trwodd. Nid yw'n rhywbeth y byddwn i'n ei annog yn yr haf ond byddai'n cael ei groesawu'n fawr yr adeg yma o'r flwyddyn [Tachwedd]."
> **Llety â Gwasanaeth, Gogledd**

Mae presenoldeb amlwg beicwyr ar hyd y flwyddyn yn gyson ar draws yr holl sectorau, rhanbarthau a mathau o deithiau, ac nid dim ond y beicwyr ymroddedig sy'n ymweld y tu allan i'r haf.

## Gwlad enedigol

### Ffigwr 8: C5 "O ba brif wledydd y mae'r gwesteion hynny'n dod?




*Cafodd C5 ei ofyn i fusnesau a oedd yn derbyn gwesteion sy'n beicio yn aml neu weithiau (C2)*

## Y DU oddi allan i Gymru yw'r brif farchnad

Mae ymwelwyr sy'n beicio yn dod o nifer o wahanol wledydd, ond y DU oddi allan i Gymru yw'r brif ffynhonnell fusnes. Mae hyn yn gyson ar draws pob rhanbarth a sector.

> "Rwy'n credu ein bod ni wedi cael un grŵp o Ffrainc ond o'r DU maen nhw fel arfer"
> **Hostel, Gogledd**

> "Mae beicwyr yn dueddol o fod yn grwpiau o ddynion o'r DU"
> **Llety Hunanddarpar, De-orllewin**


Mae ymwelwyr o dramor y bennaf yn dod o'r gwledydd Ewropeaidd agosaf ac yn rhai sydd fwyaf tebygol o fod ar deithiau beicio penodedig. Maent yn dueddol o aros mewn llety â gwasanaeth, hosteli neu faes carafanau a gwersylla yn fwy na mewn llety hunanddarpar. Mae busnesau yn ne-orllewin Cymru yn ymddangos i fod yn denu beicwyr o amrywiaeth fwy eang o wledydd. Mae'n ymddangos nad oes unrhyw wahaniaeth rhwng busnesau achrededig Croeso i Feicwyr a rhai nad ydynt yn achrededig o safbwynt denu ymwelwyr o dramor.

> "Mae pobl o'r Iseldiroedd yn dod ac yn llogi beiciau"
> **Llety Hunanddarpar, Gogledd**

“Rydym yn union wrth ymyl llwybr yr arfordir. Mae gennym 20 o feicwyr o’r Almaen yn aros ym mis Mai.”
**Llety Hunanddarpar, Gogledd**

## Math o feicio

**Ffigwr 9: C6 “Ydych chi’n gwybod pa fathau o feicio mae’r gwesteion hynny’n dueddol o wneud pan maen nhw yn yr ardal?”**





*Mae C6 wedi cael ei ofyn i fusnesau a oedd yn derbyn gwesteion sy’n beicio yn aml neu weithiau (C2)*


### Math o feicio yn amrywio yn dibynnu ar yr union leoliad

Ar hyn o bryd mae Cymru’n denu ymwelwyr sy’n cymryd rhan mewn amrywiaeth o wahanol fathau o feicio. Mae hyn yn amrywio yn ôl lleoliad y busnes a pha mor agos ydynt at y parciau beic, y llwybrau beicio penodedig, addasrwydd y ffyrdd a’r digwyddiadau.

**Ffigwr 10: C6 "Ydych chi'n gwybod pa fath o feicio mae'r gwesteion hynny yn dueddol o'i wneud pan maent yn yr ardal?" (Busnesau sy'n denu beicwyr ymroddedig yn bennaf)**




**Ffigwr 11: C6 "Ydych chi'n gwybod pa fathau o feicio mae'r gwesteion hynny'n fwyaf tebygol o'i wneud pan maent yn yr ardal?" (Busnesau sy'n derbyn rhai nad ydynt yn feicwyr penodol yn bennaf)**




Ymysg busnesau sy'n bennaf yn derbyn beicwyr ymroddedig, eu dau brif ateb i'r cwestiwn hwn yw 'beicio ar y ffordd' (67%) a 'beicio mynydd" (45%). Yr ateb sy'n cael ei roi amlaf ymysg busnesau sy'n bennaf yn derbyn teithiau beiciau sydd heb fod yn benodol ar gyfer beicio yw 'beicio di-draffig ar lwybrau cerdded' (65%).

> "Mae llawer o feicio mynydd yma ac mae llwybr Taf hefyd yn agos iawn"
> **Llety â Gwasanaeth, De-ddwyrain**

> "Mae'r beicwyr rydym wedi eu cael wedi mynychu digwyddiadau yn Llangollen"
> **Llety Hunanddarpar, Gogledd**


> "Prysur iawn gyda beicio ar y ffordd yn ystod yr haf"

**Llety â Gwasanaeth, Gogledd**

"Mae pobl yn gwneud llawer o feicio mynydd eithafol yn yr ardal"
**Maes carafanau, Gogledd-ddwyrain**

# Archebu Llety

### Ffigwr 12: C7 "Sut maen nhw'n archebu eich llety?"




*Mae C7 wedi cael ei ofyn i fusnesau a oedd yn derbyn gwesteion sy'n beicio yn aml neu weithiau (C2)*

### Cyfuniad o sianeli archebu


Mae'r rhan fwyaf o fusnesau yn gweld bod cymysgedd o archebion yn dod drwy drydydd parti ac yn uniongyrchol. Mae hyn yn gyson ar draws yr holl sectorau a rhanbarthau a'r math o dripiau beicio y darperir ar eu cyfer.

"Mae'n ardal hyfryd ar gyfer beicwyr. Rydym yn falch os ydynt yn archebu gyda ni'n uniongyrchol fel y gallwn ddarparu ar gyfer eu holl anghenion wedyn"
**Llety â Gwasanaeth, Gogledd**

"Mae pobl yn archebu gyda BikePark Wales yn gyntaf ac wedyn pan maen nhw wedi cael eu dyddiadau yno, maen nhw'n ei archebu gyda ni."
**Llety Hunanddarpar, De-orllewin**

## Manteision bod yn achrededig

**Ffigwr 13: C9 "Ydych chi'n teimlo bod yn fusnes achrededig Croeso i Feicwyr wedi helpu eich busnes i ddenu beicwyr?"**




*Gofynnwyd C6 i fusnesau achrededig Croeso i Feicwyr*

## Buddion cyfyngedig a welwyd


Mae rhai busnesau'n dweud bod eu hachrediad Croeso i Feicwyr wedi eu helpu i ddenu beicwyr, ond mae'r effaith yn dueddol o fod yn eithaf cyfyngedig, ac mae nifer o fusnesau'n dweud nad ydynt wedi gweld unrhyw effaith. Nid yw busnesau'n glir ynghylch pam mai felly y mae hi.

> "Mae'n bosib y bydd yn prysuro pan fydd llwybr Tywi'n agor, ond mae bod yn achrededig wedi dod â mwy o feicwyr i ni"
> **Llety â Gwasanaeth, De-orllewin**

Ymddengys mai'r sector â gwasanaeth sydd wedi cael y mwyaf o fudd, gyda 21% yn ateb 'ie - i raddau helaeth' a 30% yn ateb 'ie - i raddau'.

## Gwasanaethau a chyfleusterau y gofynnwyd amdanynt

**Ffigwr 14: C10 "Oes yna unrhyw fathau o wasanaeth neu gyfleuster sy’n gysylltiedig yn arbennig gyda beicio y mae gwesteion yn gofyn amdano wrthych chi?" (Digymell)**




*Holwyd C10 i fusnesau achrededig Croeso i Feicwyr*

## Dim ond ychydig o gyfleusterau y gofynnir amdanynt

Er mwyn i fusnes lletya foddhau anghenion beicwyr, y brif flaenoriaeth yw cynnig lle i storio beiciau’n ddiogel ac o dan do. Gwneir cais am hyn yn aml gan y gwesteion, er nad yw rhai beicwyr angen hyn gan eu bod yn storio eu beiciau yn eu fan neu mewn carafán.

> “Bydd y rhan fwyaf o feicwyr sy’n aros yn gadael eu beiciau dros nos mewn fan ond mae gennym ni le storio os nad yw hyn yn bosib”
> **Llety â Gwasanaeth, Gogledd**


Fel arall, er gwaetha’r cyfleusterau a gwasanaethau niferus sy’n cael eu hargymell gan y cynllun Croeso i Feicwyr, dyw trefnwyr llety ddim yn dueddol o gael eu holi am fawr ddim arall. Mae cais am lefydd i sychu dillad ac esgidiau gwlyb a chyfleusterau i olchi beiciau yn fwy tebygol o gael ei wneud mewn llety sy’n derbyn beicwyr mynydd a beicwyr oddi ar y ffordd.

"Fe ofynnom am dwba poeth. Mae beicwyr yn ei fwynhau ar ddiwedd y diwrnod ar ôl bod yn BikePark Wales ac wedyn maen nhw'n dod yn ôl atom ni ar gyfer hynny."
**Llety Hunanddarpar, De-orllewin**

"Mae llawer o feicwyr yn aros ond does neb wedi gofyn am unrhyw beth gennym ni"
**Llety Hunanddarpar, De-orllewin**

## Diddordeb mewn dod yn achrededig

**Ffigwr 15: C11 "Oes gennych chi unrhyw ddiddordeb mewn dod yn fusnes achrededig Croeso i Feicwyr?"**




*Gofynnwyd C11 i fusnesau nad ydynt wedi eu hachredu dan y cynllun Croeso i Feicwyr*

### Diddordeb rhesymol

Mae yna ddiddordeb ymysg busnesau heb eu hachredu mewn dod yn achrededig. Mae'r canfyddiadau'n eithaf cyson ar draws gwahanol sectorau a rhanbarthau. Mae rhai'n dweud nad oedden nhw'n ymwybodol o'r cynllun.


"Rwyf wedi meddwl amdano ... mae yna nifer o feicwyr yn yr ardal felly rwy'n ystyried dechrau darparu pethau ar gyfer beicwyr yn y dyfodol."
**Llety Hunanddarpar, Gogledd**

"Mae yna ddigonedd o feicwyr yn yr ardal ac mae gennym ddigonedd o le i stori beiciau. Mae gennym ddiddordeb mawr"
**Llety Hunanddarpar, Canolbarth**

"Rydym yn union wrth ymyl llwybr yr arfordir. Llefydd hyfryd ar gyfer beicwyr a cherddwyr. Mae gennym ddiddordeb mawr mewn achrediad Croeso i Feicwyr."
**Llety â Gwasanaeth, De-orllewin**

## Hyrwyddo addasrwydd ar gyfer beicwyr

**Ffigwr 16: C12 (Heb ei achredu) "A yw eich busnes yn hyrwyddo ei hun mewn unrhyw ffordd i ddangos ei fod yn addas ar gyfer beicwyr, er enghraifft drwy restru cyfleusterau perthnasol?"**




*Gofynnwyd C12 i fusnesau nad ydynt yn rhai achrededig Croeso i Feicwyr*


## Peth hyrwyddo gan fusnesau heb eu hachredu

Mae rhai busnesau sydd heb eu hachredu (21%) yn hyrwyddo eu haddasrwydd ar gyfer beicwyr. Mae hyn yn cyfateb i'r lefel o deithiau beicio penodedig maent yn eu derbyn, sy'n cael ei ddangos uchod.

> "Rydym yn hysbysebu ar ein gwefan fod gennym gyfleusterau ar gyfer beicwyr ...mae'n rhaid i feicwyr fod yn heini gan ei bod hi'n fryniog iawn yma"
> **Llety Hunanddarpar, Canolbarth**

## Gwasanaethau a chyfleusterau a gynigir

**Ffigwr 17: C13 (Heb ei achredu) "A yw eich llety ar hyn o bryd yn cynnig unrhyw un o’r gwasanaethau canlynol sy’n benodol ar gyfer beicwyr, neu’n bwriadu gwneud hynny?"**





*Gofynnwyd C13 i fusnesau nad ydynt yn rhai achrededig Croeso i Feicwyr. Gofynnwyd am gael ‘llenwi potel o ddŵr am ddim’ ac ‘amser bwyd hyblyg’ mewn lletyau â gwasanaeth a hostelau.*

## Mae nifer o fusnesau nad ydynt wedi eu hachredu eisoes yn cwrdd ag anghenion beicwyr

Mae nifer o fusnesau sydd heb eu hachredu yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau ar gyfer beicwyr. Mae’n ymddangos bod nifer o fusnesau nad ydynt wedi eu hachredu dan y cynllun Croeso i Feicwyr eisoes yn cwrdd â’r rhan fwyaf o anghenion gwesteion sy’n beicio, fel y nodir ym mharagraffau 7.19 a 7.20.

## Storio beiciau

**Ffigwr 18: C13 (Heb ei achredu) "A yw eich llety ar hyn o bryd yn cynnig llefydd i storio beiciau'n ddiogel ac o dan do, neu'n bwriadu gwneud hynny?" (dangosir canlyniadau fesul sector)**




*Mae'r sail ar gyfer hosteli'n isel iawn (8) ac felly maent yn cael eu heithrio o'r rhaniad fesul sector*

Y cyfleuster pwysicaf yw storio beic yn ddiogel, fel y trafodwyd ym mharagraff 7.19. Mae'r mwyafrif (71%) o letyau â gwasanaeth ac oddeutu hanner (56%) o fusnesau hunanddarpar yn darparu hyn. Fodd bynnag, mae lleiafswm (23%) o safleoedd carafanau a gwersylloedd yn gwneud hynny a dim ond 8% ymhellach ohonynt sy'n bwriadu ei gyflwyno. Mae rhai beicwyr yn cadw beiciau y tu mewn i'r carafanau.

> "Does neb erioed wedi gofyn i ni am storio. Maent yn cadw eu beiciau yn eu carafanau ond byddem yn ceisio darparu ar eu cyfer pe baent yn gofyn."
> **Maes carafanau, Gogledd**

> "Mae gennym storfa ar gyfer beiciau ac mae yna lwybrau hyfryd ar gyfer beicwyr. Rydym yn cefnogi Ironman ond maent yn dueddol o ddod â'u beiciau drud iawn i mewn."
> **Llety â Gwasanaeth, De-orllewin**

> "Fe gawsom ni sawl achos o ddwyn beiciau dro yn ôl felly mae gennym ni flychau storio sy'n cael eu cadw ar glo. Dim ond y wardeiniaid sydd gan allweddi."
> **Maes carafanau, Gogledd-ddwyrain**

> "Dim ond lle bach sydd gennym ni a bydd pobl sy'n dod â beiciau yn eu cadw nhw y tu mewn i'r bythynnod, ac yn cael olew a budreddi ym mhobman, sydd ddim yn ddelfrydol"
> **Llety Hunanddarpar, De-orllewin**

Mae'r ddau gyfleuster oedd yn cael eu holi amdanynt gan rai mathau o feicwyr a drafodwyd ym mharagraff 7.23 yw lle i sychu dillad a lle i olchi beiciau. Mae meysydd carafanau a maes gwersylla  a busnesau hunanddarpar yn fwy tebygol o gynnig y rhain na llety â gwasanaeth. Mae tua hanner (54%) o fusnesau hunanddarpar a chyfran debyg (50%) o feysydd carafanau a meysydd gwersylla yn cynnig lle i sychu dillad, o'i gymharu gyda chyfran is (31%) o ddarparwyr llety â gwasanaeth.

Mae tua hanner (56%) o fusnesau hunanddarpar a 46% o feysydd carafanau a meysydd gwersylla yn cynnig cyfleuster awyr agored i olchi beiciau, o'i gymharu gyda chyfran is (24%) o ddarparwyr llety â gwasanaeth.

## E-feiciau

Mae e-feiciau yn cynyddu mewn poblogrwydd ymysg beicwyr ond mae rhai busnesau llety yn ymwybodol o'r risgiau tân ac yswiriant a'r gost o wefru batris.

> "A dweud y gwir fe wnes i brynu ychydig o e-feiciau er mwyn i westeion eu defnyddio ond wedyn fe wnes i ailfeddwl oherwydd y goblygiadau o ran atebolrwydd"
> **Llety Hunanddarpar, Gogledd**


> "Rwy'n wyliadwrus ynghylch pobl sy'n gwefru eu batris yn yr ystafelloedd ar gyfer e-feiciau"
> **Llety â Gwasanaeth, De-orllewin**

> "Mae'r rheoliadau tân wedi newid yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf yma ac mae gwefru e-feiciau yn cael ei ystyried yn berygl"
> **Llety Hunanddarpar, Canolbarth**

> "Dydyn ni ddim eisiau annog e-feiciau, ac mae codi tâl er mwyn i bobl eu gwefru nhw yn faes ychydig yn niwlog"
> **Llety â Gwasanaeth, Canolbarth**

## Rhesymau dros beidio bod â diddordeb mewn achrediad

**Ffigwr 19: C14 "Oes yna unrhyw resymau penodol pam nad oes gennych chi ddiddordeb / nad ydych chi'n gwybod a oes gennych chi ddiddordeb i ddod yn fusnes achrededig Croeso i Feicwyr?" (Digymell)**




*Holwyd C14 i fusnesau nad oeddent yn mynegi diddordeb mewn dod yn achrededig (C11)*

## Amrywiaeth o resymau

Rhoddwyd nifer o resymau am beidio â bod â diddordeb mewn achrediad, ond mae'n ymddangos nad yw'r gost neu'r drafferth o greu cyfleusterau yn rhwystr mawr.

Mae rhai trefnwyr yn canolbwyntio mwy ar fathau eraill o dwristiaeth.

> "Rydym yn cynnig gwyliau cerdded yn bennaf"
> **Llety â Gwasanaeth, Canolbarth**

> "Dim ond lle bach sydd gennym ni ac rydym yn denu teuluoedd yn bennaf, ar gyfer y traeth."
> **Llety Hunanddarpar, De-orllewin**

> "Rydym yn cynnig profiad bwyta aruchel felly nid ydym yn fath o le sy'n denu beicwyr."
> **Llety â Gwasanaeth, Canolbarth**


Mae rhai yn dweud nad ydyn nhw'n denu digon o feicwyr i achrediad fod yn werth chweil. Mae rhai hefyd yn dweud bod eu lleoliad yn anaddas ar gyfer beicio. Mae gormod o fryniau

serth, lonydd cul peryglus cefn gwlad a phrinder llwybrau beicio oddi ar y ffordd yn eu hardal yn rhesymau cyffredin a roddwyd.

> "Mae'r ffyrdd yn gul iawn felly mae hi ychydig yn beryglus"
> **Llety â Gwasanaeth, De-orllewin**

# Pwysigrwydd twristiaeth beicio yn y dyfodol

**Ffigwr 20: C15 "Pa mor bwysig yw twristiaeth beicio ar gyfer dyfodol eich busnes?"**




## Amrywiaeth o safbwyntiau

Mae 44% o fusnesau'n dweud bod twristiaeth beicio'n bwysig i'w dyfodol. Os yw'r 13 o fusnesau sy'n gwrthod cyfweliad ar sail nad ydynt yn teimlo bod twristiaeth beicio yn berthnasol iddynt hwy, yn cael ei ddwyn i ystyriaeth (trafodwyd yn gynharach o dan C2), nid yw'n gwneud unrhyw wahaniaeth i'r gyfran hon (43%).

> "Rydym yn croesawu cymaint o Lycra â phosib! Mae toiledau cyhoeddus ar gau yn y gaeaf ond mae croeso cynnes i feicwyr ddefnyddio ein cyfleusterau ni gydol y flwyddyn."
> **Llety â Gwasanaeth, De-orllewin**

> "Hoffem weld beicio'n dod yn rhan fwy pwysig o ddyfodol y busnes. Pe bai mwy o wybodaeth ar gael, byddem yn gallu ei hyrwyddo'n fwy helaeth. Rydym bob amser yn llawn i'r ymylon ym mis Mehefin ar gyfer digwyddiad beicio."
> **Llety Hunanddarpar, De-orllewin**

Does yna ddim gwahaniaethau sylweddol fesul sector neu p'un a yw'r busnes wedi ei achredu yn un Croeso i Feicwyr. Yn ôl daearyddiaeth, mae atebion yn amrywio fel o'r blaen drwy union leoliad ac agosatrwydd at barciau beics, llwybrau beicio, ffyrdd neu ddigwyddiadau.

“Dydw i erioed wedi byw mewn lle gyda chymaint o feicwyr! Rydyn ni ar lwybr Ironman.”
**Llety â Gwasanaeth, De-orllewin**


Nid oes gan rai busnesau ddiddordeb mewn denu beicwyr oherwydd yn ôl y sôn bod yn well ganddynt rai sy’n aros am un noson.

“Mae’r rhan fwyaf o feicwyr yn aros un noson ac rydym yn cynnig isafswm o ddwy noson.”
**Llety Hunanddarpar, Gogledd**

“Mae rhai sy’n darparu gwely a brecwast llai yn ei chael hi’n broblem go iawn cael rhai sy’n aros am un noson”
**Llety â Gwasanaeth, Gogledd**

## Oes yna rywbeth sydd ar goll wrth ddarparu ar gyfer beicwyr?

**Ffigwr 21: C16 "Beth, os o gwbl, yn eich barn chi sydd ar goll yn yr ardal leol ar gyfer beicwyr sy’n ymweld?" (Digymell)**




## Mae’r cynnyrch yna i bob pwrpas

Mae’n ymddangos bod gan Gymru eisoes seiliau cadarn ar gyfer twristiaeth beicio o safbwynt y cynnyrch. Mae oddeutu hanner (47%) o fusnesau’n teimlo nad oes unrhyw beth ar goll ar hyn o bryd a dyw 22% arall ddim yn gwybod a oes unrhyw beth ar goll.


“Mae yna ddigonedd o lwybrau ar gyfer beicwyr yn ein hardal: cylchdaith Ogwr, Parc Margam, mynyddoedd”
**Llety â Gwasanaeth, De-ddwyrain**

"Mae yna ddigon o lwybrau beicio hyfryd"
**Llety â Gwasanaeth, Gogledd**

## Llwybrau dynodedig a ffyrdd peryglus

Y ddwy agwedd o'r cynnyrch sydd ar goll sy'n cael eu crybwyll amlaf yw 'llwybrau oddi ar y ffordd gydag arwynebedd da' a 'ffyrdd diogel'. Dyma hefyd lle mae'r prif wahaniaeth yn ôl grŵp gan ei fod yn amrywio yn ôl lleoliad:

**Ffigwr 22: C16 % yn ateb yn ddigymell nad oes digon o lwybrau ar y ffordd sydd ag gwyneb da(canlyniadau'n cael eu dangos fesul rhanbarth o Gymru)**




Mae gan rai ardaloedd lwybr beicio da, ond mae rhai yn brin o bwynt gorffen poblogaidd neu'n brin o gyfleusterau ar hyd y ffordd. Weithiau dyw'r arwyddion ddim yn ddigon eglur.

"Dim ond hyn a hyn o bellter yw hyd ein llwybr beicio. Mae'n rhaid i chi fynd ar y brif ffordd er mwyn mynd i Dre-gŵyr. Mae yna ran fawr ar goll."
**Llety Hunanddarpar, De-orllewin**


"Byddai'n beth gwych ymestyn y llwybr beicio oddi ar y brif ffordd ac i lawr i Niwgwl. Ar y funud, mae'r llwybr beicio ar ddarn o ffordd brysur, sydd ddim yn beth dymunol."
**Llety â Gwasanaeth, De-orllewin**

"Dyw hi ddim yn ardal dda ar gyfer beicwyr, oherwydd y math o dir. Does dim llwybrau beicio."
**Maes carafanau, Canolbarth**

"Rydym ar ganol llwybr beicio ac mae pobl wedi dweud wrthym ni pan maen nhw'n dod atom bod bwlch ar y llwybr sy'n creu dryswch ac nad yw'r arwyddion yn wych"
**Maes carafanau, Gogledd-ddwyrain**

Yn yr un modd, mae busnesau yng nghanolbarth a de-orllewin Cymry yn fwy tebygol o deimlo nad oes gan eu hardal hwy 'ffyrdd diogel':

**Ffigwr 23: C16 % yn ateb yn ddigymell bod angen ffyrdd diogel (canlyniadau'n cael eu dangos fesul rhanbarth o Gymru)**




> "Rydym yn cynghori pobl i beidio â beicio ar ffordd Llanbedr i Aberaeron. Mae'n beryg bywyd."
> **Maes carafanau, Canolbarth**

> "Mae'r ardal hon yn denu llawer o driathletwyr ond mae angen mwy o lwybrau sy'n gyfeillgar i deuluoedd gan fod yna nifer o ffyrdd un-trac na fyddwn i'n eu hargymell ar gyfer beicio gyda'r teulu"
> **Llety Hunanddarpar, Canolbarth**

## Elfennau pellach sy'n ddiffygiol

Roedd y sylwadau am yr elfennau o'r cynnyrch beicio y tybir eu bod ar hyn o bryd yn ddiffygiol yn cynnwys trafnidiaeth gyhoeddus, gwybodaeth am lwybrau a llefydd i logi beiciau, ond dim ond rhai o fusnesau sydd wedi adrodd am y rhain.

> "Mae pobl yn aml yn gofyn am siopau llogi beiciau ond mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cau"
> **Llety â Gwasanaeth, De-orllewin**

> "Mae yna ddigonedd o lefydd fel coedwigoedd yn yr ardal i feicio ynddynt ond does dim digon o wybodaeth. Mae angen gwell trafnidiaeth gyhoeddus arnom yn yr ardal hefyd."
> **Llety Hunanddarpar, Canolbarth**

## Meddyliau terfynol ar ddatblygu twristiaeth beicio yng Nghymru

Tra bod yna rai problemau lleol a drafodwyd uchod ynghylch diffyg diogelwch a llwybrau beicio penodedig, y teimlad yw bod gan nifer o ardaloedd yng Nghymru gynnyrch beicio cryf. Ystyrir bod datblygu twristiaeth beicio yng Nghymru yn fater o hyrwyddo'r cynnyrch yn hytrach nag ychwanegu llawer at yr hyn sydd eisoes yno o reidrwydd.

> "Milltiroedd o lwybrau hyfryd"
> **Maes carafanau, Gogledd**

> "Mae Llanberis yn eithaf parod ar gyfer beicio a gweithgareddau awyr agored eraill."

**Hostel, Gogledd**

"Mae yna gyfle i gynnig mwy o deithiau beicio a llogi beics yn yr ardal"
**Llety Hunanddarpar, De-orllewin**

"Rydym wedi cael mwy o feicwyr eleni nag erioed o'r blaen felly rydym wirioneddol yn ystyried hysbysebu mewn cylchgronau beicio"
**Llety â Gwasanaeth, Gogledd**

"Rydym yn byw yng Ngheredigion ac mae'n lle hyfryd i feicio ond does dim digon yn cael ei wneud i ddenu beicwyr i'r ardal. Mae angen mwy o fapiau er mwyn i feicwyr wybod lle gallant fynd a chael mwy o lwybrau, a hysbysebu."
**Llety Hunanddarpar, Canolbarth**

"Rydym yn fwy na hapus i gydweithio ar unrhyw fentrau ar gyfer yr ardal"
**Llety â Gwasanaeth, De-orllewin**

# 8. Argymhellion

## Achos cryf dros flaenoriaethu twristiaeth beicio

Mae yna achos cryf dros flaenoriaethu beicio oherwydd:

- Mae llawer o'r cynnyrch craidd yn bodoli eisoes gan ei fod yn cyd-fynd gydag amcanion llesiant llywodraeth leol a chanolog.
- Y teimlad yw bod gan Gymru'r priodoleddau naturiol hardd mae twristiaid beicio yn eu dymuno
- Mae'n denu galw mawr yn y tymhorau distawach, pan fyddai nifer o welyau llety yn wag fel arall

## Meysydd ar gyfer twf

Y prif feysydd ar gyfer twf yw'r rhannau o'r farchnad nad ydynt y cynrychioli trwch y galw: menywod, teuluoedd a rhai a fyddai'n beicio er nad dyma brif bwrpas y gwyliau.

Mae angen i'r rhannau hyn o'r farchnad weld cynnig taclus sy'n dwyn ynghyd llwybrau beicio o hyd cyfforddus ac ychydig o rannau mwy heriol gydag atyniadau a threfi bach prydferth. Y teimlad yw bod gan Gymru y cynnyrch hwn eisoes ac mae gwefan Croeso Cymru eisoes yn dangos yr agwedd hon, ond mae angen ei hyrwyddo er mwyn codi ymwybyddiaeth.

Gellir defnyddio digwyddiadau fel catalydd i hyrwyddo twristiaeth beicio yng Nghymru, gan fod yna farchnad sy'n bodoli eisoes o dwristiaid a fyddai'n gallu cael eu hannog i ymestyn eu harhosiad a/neu ailymweld ar adegau eraill.

## Llogi beiciau

Os yw'r farchnad fwy 'hamddenol' yn cael ei thargedu ar gyfer twf, dyma'r ymwelwyr sy'n fwyaf tebygol o fod angen llogi beiciau yn fwy na'r beicwyr ymroddedig, sydd ar hyn o bryd i gyfrif am gyfran helaethaf o'r galw.

Ymddengys bod llogi beiciau yn broblem gylchol mewn rhai ardaloedd, gan nad oes gan drefnwyr masnachol y gred y bydd yn hyfyw. Mae'n bosib y bydd angen peth cymorth gan y sector cyhoeddus er mwyn rhoi hwb i logi beiciau ar y dechrau.

Wrth i'r galw am e-feiciau dyfu'n gyflym, mae'n bosib iawn y bydd y galw am logi beiciau hefyd yn cynyddu gan fod e-feiciau yn ddrud i'w prynu. Mae yna heriau gyda chostau i ddarparwyr, yswiriant, a digon o bwyntiau gwefru diogel sydd angen mynd i'r afael â hwy.

## Nifer o bartneriaid sy’n fodlon gweithredu

Mae yna nifer o awdurdodau, elusennau, cyrff cyhoeddus beicio, trefnwyr teithiau, trefnwyr digwyddiadau a darparwyr llety a fyddai’n cefnogi ymdrechion i flaenoriaethu a hybu twristiaeth beicio yng Nghymru.

# 9. Cyfeiriadau allanol


- Llywodraeth Cymru (2024), 'Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles Pob Oed'. Caerdydd: Llywodraeth Cymru
- Llywodraeth Cymru (2024), 'Gweithio Gyda'n Gilydd ar gyfer Cymru Iachach'. Caerdydd: Llywodraeth Cymru
- Llywodraeth Cymru, 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol'. Caerdydd: Llywodraeth Cymru
- Croeso Cymru (2025), 'Cynlluniau Sicrhau Ansawdd Croeso Cymru'
- Llywodraeth Cymru (2024), 'Baromedr Twristiaeth: Cam Mis Chwefror, 2024'. Caerdydd: Llywodraeth Cymru
- Llywodraeth Cymru (2024), 'Baromedr Twristiaeth: Cam Mis Mehefin, 2024', Caerdydd: Llywodraeth Cymru
- Yr Adran Drafnidiaeth (2024), 'Batris e-feiciau ac e-sgwteri: rheoli peryglon tân ar gyfer eiddo'
- Croeso Cymru (2025), 'Croeso i Gymru: Blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymwelwyr'